Caniadau Duwiol,

O WAITH

Mr. *THOMAS LEWIS*,

GYNT O'R

YNYSWEN, ym Mhlwyf LLANEGWAD, yn Sir GAERFYRDDIN;

AC, AR UN AMSER, O

GASTELL-HYWEL, yn Sir ABERTEIFI.

CAERFYRDDIN,

ARGRAPHWYD GAN IOAN DANIEL.

M,DCC,XCV.

[*Pris* SWLLT, *heb ei rwymo.*]

BRITISH MUSEUM

Cywydd o Ganmoliaeth

I Farddoniaeth archerchog y diweddar Fardd,

THOMAS LEWIS,

YNGHYD A

RHYBUDD I'R DARLLENYDD.

CROESO waith hen *Gymro* gwych,
Cu, enwog, gerddi cein-wych,
Gwaith awen, gwiw-goeth weuad,
Boed iddo oleuo'r wlad.

O bob dawn radlawn a roes
Yr Ion yn gyffur einioes,
Hynottaf peth yn nattur,
Yw mwyn waith Bardd mewn iaith bur.

Y Bardd hwn, ebrwydd, hynod,
I *Gymru*, da fu ei fod;
Gwnaeth wiw-les, gynnes ganiad,
O wir les i wyr ei wlad:
Nap addwyn ro nef iddaw,
Rhoes waith diled-iaith o'i law.

Chwi y gofeirdd, a'r beirdd bach,
Heb ball, rho'wch heibio bellach
Eich hymnau, geiriau gorwag,
Ymaith, ymaith â'ch gwaith gwag.

Gwelwn ganiadau gwiw-lwys,
Gwaith llwfn a fynwyr dyfn dwys,

Un a dâl (heb ſon dyli)
Filiynau o'ch hymnau chwi.

Pob *Cymro* a garo gân
Gu, eurlwys, bêr, gywir-lân,
Gweled, darllened yn llon,
Waith Bardd, pennaeth y beirddion.
Gwaith TOMAS, addas wiw-ddyn,
LEWIS, a fu ddewis ddyn,
Ni's gwn a oes îs gwiw-nef,
Brydydd mor gelfydd ag ef.

Aeth ef â'i gân, loyw-gân lwys,
I brydu i Baradwys,
At y côr ſy'n clodfori
Odiaeth ras un Duw a thri.

Titheu, yn ddiau, O ddyn,
Gwilìa rhag rhwyd y gelyn,
Cais y nef—os ceiſi'n iawn,
Yn daer—mae Duw yn diriawn;
Gwna d'oreu rhag gwŷn diras,
Yno'r ei drwy ION a'i ras.

DAFYDD IONAWR.

CANIADAU

CANIADAU YSPRYDOL.

CAN. I.

AR GWYMP ADDA.

I.

DUW a ddywedodd, Gwnawn ddyn cyw-
rain, *Gen.* i. 26.
Ar ein llun a'n delw'n hunain,
Arglwyddiaethant ar greaduriaid,
Dw'r, a daear, ac ehediaid.

II.

Ar lun a delw Duw yn ddieu, *Gen.* v. 1.
Y creodd Duw y dyn o'r dechreu,
A meddwl, gallu, ac ewyllys,
A thueddiadau i fod yn happus.

III.

Nid oedd y dyn ddaroſtyngedig, *Mat.* iv. 10.
Ond i orchymyn Duw yn unig,
Rhoed rheſwm abl i'w gyf'rwyddo,
Rhag anharddu ei hun, a'i 'nurddo.

IV.

Dyma ddyn ar ddelw Duw,
Yn arglwyddiaethu ar bob peth byw,
Rhyfedd oedd eu godidowgrwydd, *Preg.* vii. 29.
Pan y daethant o law'r Arglwydd.

V.

'Roedd ei enaid e'n yſprydol,
Gloyw, ſyml, pur, rheſymol;
Rhoed iddo allu ac ewyllys,
I wrthod drwg a da, a'u dewis.

VI.

Gallaſai hwn fwynhau ei Greüwr,
Cyn ei halogi yn ddilwgwr,
Myn'd yn y blaen i anfarwoldeb,
Pe bu'ſai'n rhodio mewn uniondeb.

VII.

Y meddwl gyneu oedd ddigynwr,
Yn adnabod y Creawdwr,
Y ſerch, tueddiad, a'r ewyllys,
Yr unig Dduw o'ent hwy'n ei ddewis.

VIII.

Ond cynted ag y ſyrthiodd Adda,
Cyfrifwyd e'r creadur gwaetha';
Cyfnewidiad cas afrifed,
Troi delw Duw ar ddyli diafliaid.

IX.

Eu dealltwriaeth a dywyllwyd, *Eph.* iv. 18.
A'r meddwl puraidd a amharwyd, *Tit.* i. 16.
Mae'r holl alluoedd wedi llygru, *Sal.* xiv. 1, &c.
Yn dueddol i ddrygioni.

X.

Dyma ffrwyth y pechod cynta',
Fe ddaeth marwolaeth ar hen Adda, *Gen.* iii.
Gwedi colli'r ddelw ardderchog, 19. a v. 5.
Hwy aent yn hawl y diawl afrywiog.

XI.

Nid oedd na gallu, nac ewyllys, *Rhuf.* vii. 18, &c.
(Gwedi myn'd ar ddidro) i ymddadrus,

Na

Na gweithred gymmeradwy 'ſywaeth,
I atteb diben creadigaeth.

XII.

'Roedd pob cyf'rwyddyd wedi'i gladdu,
Dan 'ſgubion pechod a drygioni:
Dyna farwolaeth y byd i chwi,
Cyn gwybodaeth o Griſt Ieſu.

XIII.

Beth oedd bywyd y byd pryd hynny,
Ar ddyfodiad Criſt i'n prynu?
Bywyd o bechod dyn daearol,
Nid llun na delw Duw rhagorol.

XIV.

'Roedd y byd ei gyd yn gorwedd
Mewn trythyllwch ac anwiredd,
Ar ddyli mab yr anufudd-dod,
Oedd yn eu denu i garu pechod.

XV.

Fe ddaeth Criſt i'r byd, o bwrpas, *Rhuf.* vi. 6, 8.
I ddiſtrywio pechod atgas;
A'r rhai ſydd eiddo Criſt, croeſhoeliant *Gal.*
Y cnawd, a'i wyniau drwg, a'i drachwant.. 24

XVI.

Dyma ddarluniad o'n bucheddau, 1 *Ioan* v. 19, 20.
Pan ddaeth Criſt i gadw eneidiau,
Buchedd pechod oedd pryd hynny,
A'r hen elyn yn rheoli.

XVII.

O byddwn feirw gyd â'r Ieſu, *Rhuf.* xiv. 8, 9.
Gyd â'r Arglwydd rhaid ein claddu,
O blegid rhaid i ni ymwrthod 2 *Tim.* ii. 19.
A'r bywyd brwnt, digwnt, o bechod.

XVIII.

Ymrown i farw i bechod beunydd, *Rhuf.* vi. 4, 11.
Dechreuwn fyw i Dduw o'r newydd,
Mewn gwir dduwioldeb a ſancteiddrwydd, *Luc*
Fel y'n cymmoder ni â'r Arglwydd. i. 74, 75.

XIX.

Hon yw'r adgyfodiad, clyw,
Yn wir i'r dyn fu ar ddelw Duw,
Efe oedd farw mewn camweddau, *Eph.* ii. 1.
Hwn a fywhaodd Duw yn ddiau.

XX.

Os bywhaw'd ni yng Nghriſt ein Prynwr, *Rhuf.*
Cyſodwn gyd â Duw'n Dadleuwr; vi. 8, &c.
Ac na ryfyged neb, ond hynny, *Heb.* vi. 6.
Gynnyg ail groeſhoelio'r Ieſu.

XXI.

Ymhellach poed i ni yſtyried,
Y cyfnewidiad di-amgyffred,
Nid oedd gan Adda nerth na gallu, *Phil.* ii. 13.
Na dymuniad i'w waredu.

XXII.

Criſt ei hun wnaeth orchwyl odiaeth, *Heb.* ix.
Fe luniodd fodd y prynedigaeth, 12, 14.
Efe gymmerodd atto ein hanian, *Heb.* ii. 16.
A'n hanwireddau, arno ei hunan. *Eſa.* liii. 4, &c.

XXIII.

Efe aeth dan y dyled diffaith,
Fe brofodd, dros bob dyn, farwolaeth, *Heb.* ii. 9.
Fel ar y groes y cafas ddiodde',
Fe ddywedir ein croeſhoelio ninneu. *Gal.* ii. 20.

XXIV.

Y mae'r apoſtol Paul yn haeru,
Wrth yr Hebreaid, wneuthur felly, *Heb.* ii. 9.

" I Grift ddiodde' angeu diriaid,
" Dros bob dyn o berchen enaid."

XXV.

Y mae St. Paul yn ymreſymmu,
A'r Corinthiaid, ynghylch hynny, *1 Cor.* xv. 22, 23
Os bu un farw dros bawb yno,
Felly pawb oedd feirw ynddo.

XXVI.

Pa wedd y dylem ymarweddu,
Er mwyn mwynhau'r manteiſion hynny,
A ddug angeu Criſt ar unwaith,
Trwy gyd-ymffurfio â'i farwolaeth.

XXVII.

Mae'r cyd-ymffurfiad hyn yn ſefyll,
Trwy'n gwaith ni'n marw i bechod erchyll,
Yn lle rhoi'n ſerch a'n cariad arno, *1 Ioan* v. 16, &c.
Dangos ein caſineb iddo.

XXVIII.

Tro'r hen ddyn o'th dyddyn allan, *Col.* iii. 9, 10.
Dod un newydd yno ei hunan;
Yr unig un na ddyry it' flinder, *Eph.* iv. 24.
Yw'r hwn a grewyd mewn cyfiawnder.

XXIX.

Os gwnaed ni yn gyd-blanhigion, *Rhuf.* viii. 17.
Cyff'lybiaeth ei farwolaeth greulon,
Felly y byddwn i gyff'lybiaeth *Rhuf.* viii. 17.
Ei adgyfodiad, Arglwydd, eilchwaith.

XXX.

Y rhai ragwybu, a ragluniodd, *Rhuf.* viii. 29.
Yn un ffurf â delw ei Fab o'r neſoedd,
Fel y byddai ef gyntaf-anedig,
Ymhlith brodyr, yn ddi-ddirmyg.

XXXI.

Mae mwy o hyfforddiadau eglur, *Ioan* xvii. 22.
Wedi 'ſgathru ar hyd y 'ſgrythur,
Mai'n dyled ni yw ymarweddu, 2 *Cor.* iii. 18.
A chyd-ymffurfio â Chriſt Ieſu.

XXXII.

Gwiſgwch am danoch Griſt ein Prynwr;
Na wnewch rhagddarbod dros cnawd pwdwr,
Ac na chyflawnwch ddim o'i chwantau,
Rhag diſtrywio eich eneidiau.

XXXIII.

Pa wedd, a ni yn feirw i bechod, *Rhuf.* vi. 11.
Y byddem byw i hwn heb ſyndod?
Ymwrolwch, bobl anwyl, *Salm* xcvii. 10.
I'w ffieiddio'n bennaf gorchwyl.

XXXIV

Bywyd crefydd, a chriſt'nogaeth,
Yw cyd-ymffurfio â Chriſt ar unwaith;
Cyflawnwn addunedau'n bedydd,
Ni gawn nerth oddi wrtho o'r newydd.

XXXV.

Dyma'n derbyniad ni'r efengyl, 1 *Theſ.* iv. 8.
Addunedu ar ſail ddiſigl,
A chwplâu ein haddunedau,
Fe rydd ei Yſpryd Glân i ninnau.

XXXVI.

Molianwn Dduw am ei ddaioni, *Sal.* cvii. 8.
Mor ardderchog ddarfu'n crëu, *Eſa.* xliii. 7.
A thriſtawn â chalon ddrylliog,
Am golli'r ddelw bur ardderchog.

XXXVII.

Gwnawn ein gorau i adgyweirio,
Deallwn faint yw'r golled honno;

Ffydd

Ffydd yng Nghriſt all gadw eneidiau,
Trwy iawn arferiad ordinhadau.

XXXVIII.

Arferwch chwithau'ch awdurdodau,
Dros y byd, a'i ddrud bleſerau,
Ac na ſyddwch iddo'n gaethion, *Rhuf.* vi. 18.
Gwedi i Dduw eich rhoi chwi'n rhyddion.

XXXIX.

Byddwch ſyw yn gyſattebol
I'r ddelw i'ch creodd Duw'n rhagorol,
Y Duw gwyn a'ch cynnorthwyo,
A dyweded pawb, Amen, hyn ſytho.

CAN. II.

AR GWYMP YR ANGYLION.

I.

CReaduriaid cyſnewidiol, 2 *Pedr* ii. 4.
Oedd angylion Duw'n debygol,
Cam-arferiad rhwydd o'u rhyddid,
Wnae Dduw eu ſiommi, darfu eu ſymmud.

II.

Colledigaeth dyn ac angel,
A ddaeth o achos cais rhy uchel,
Ac eiſiau'n fore iawn arferyd
Y moddion gwiw rhodd Duw i'w rhyddid.

III.

Pan gollodd dyn ei ddiniweidrwydd,
A ſyrthio i anferth amherffeithrwydd,
Fe lygrwyd holl gynheddfau'i enaid,
Waith iddo'n oflyd goelio diafliaid.

IV.

IV.

Tad y celwydd, trwy hudoliaeth, *Gen.iii.6,&c.*
Adda a lygrodd, a'i hiliogaeth;
Ond pwy a hudodd yr angylion,
I bechu yn erbyn Duw a dynion?

V.

Er ſicred yw fod Duw'n rhag-weled
Dechreu a diwedd pechaduriaid,
Nid rhag-weliad Duw yw'r achos
O golledigaeth y gwerinos.

VI.

Am fod eu pechod hwy'n ddieſgus,
Y rhoddodd Duw y farn echrydus,
A honno yn anghyfnewidiol,
I'w poeni yn y tân trag'wyddol.

VII.

Yſſigodd ben y ſarph oedd gyfrwys,
A'r hen fradwr ym mharadwys,
Trwy roi'r ail Adda i ddyn i'w ddilyn,
Ni gawn y gôl, fó dynn ei golyn.

VIII.

O achos hudo'n hen dad Adda,
Mor fyrbwyll, trwy dwyll a thraha,
Fe ddanfonodd Duw yn fuan,
I'n gwaredu o rwydau ſatan.

IX.

O gan hynny, garedigion!
Ymrown glodfori'n Prynwr tirion,
Am ei gariad i'n gwaredu,
Ac ennill iechydwriaeth i ni.

CAN.

CAN. III.

AM FALCHDER.

I.

OFnadwy ydyw ymchwydd balchder,
Yr hon a ddringodd i'r uchelder,
Yn nef hi 'nafodd yr angylion,
Mae'n amdwyo meibion dynion.

II.

Gwnaeth Abſalom yn wrthryſelwr, 2 *Sam.* xv.
Trwy fawr ſarhad i'w dad yn fradwr, xvi. xvii.
Gerfydd cangen ca'dd ei hongian, xviii. ben.
Dyn rhy wyllt, â'i wallt ei hunan. xviii. 9.

III.

Y mae balchder yn ymchwyddo,
Ac yn dylu'r dyn lle delo,
Fe'i lleinw o genſigen fawlyd,
Hyll ei feiau, cyll ei fywyd.

IV.

Nebucod'noſor, er ei wyched, *Dan.* iv. 33.
Cafodd ei wthio i blith 'nifeiliaid,
I bori gwellt at wyllt fwyſtfilod, *Dan.* iv. 33.
Am ymfalchio yma ormod. iv. 30, 37.

V.

Balchder ſydd bechod tra echryſlon,
Hon a ddamniodd yr angylion,
Ac a'u gwthiodd hwy o'r neſoedd,
I r tân i yſſu yn oes oeſoedd.

VI.

Yr ail oedd celwydd dû y diafol, *Gen.* iii.
I hudo Eſa fwytta afol,
A throſeddu y gorchymyn
Cynta' roddodd Duw i'r ddau-ddyn.

VII.

VII.

Rhai'n a fagodd ryw genfigen
Brwd rhwng brodyr, bradwyr Brydain,
Fe oerodd cariad a brawdgarwch
Yn eglwys Criſt, ond toſt yw'r triſtwch.

VIII.

O gan hynny, na 'mgynhenwn,
Mawr yw'r danſier fyn'd i'r dwnſiwn,
Gair Duw yw'r arf a darf oddi wrthyd,
Y fall a'i holl biccellau tanllyd.

IX.

Senacerib, am ei fygythion, *Eſa.* xxxvi. xxxvii.
Yn cablu Duw, 'n diyſtyru dynion,
Er maint ei rwyſg, fe ga's y raſgal
Ei wthio o'i dŷ ag eitha' dial.

X.

Fe roddodd Duw ei fach i'w ffroenau, xxxvii.
A than ei drwyn, ei ffrwyn i'w weflau, 29.
Fe ga'dd ei chwalu wrth ddychwelyd,
A'i holl lu bywiol golli eu bywyd. xxxvii. 36.

XI.

A bu, fel yr oedd e'n addoli, xxxvii. 38.
Yn nhŷ Niſroc, ei dduw digri',
Efe a laddwyd gan ei feibion,
A'r cleddyf gloyw aeth trwy'i galon.

XII.

Hezecia'n oſtyngedig, xxxvii. 14. &c.
A gariai'r llythyrau cythreulig,
Fe'u tannai ar led ger bron yr Arglwydd, *Eſa.*
Fe gafodd ei waredu'n ebrwydd. xxxvii. 14. &c.

XIII.

I Fordecai llefelai Haman *Eſter* vii.
Grog-bren anghymen gael ei hongian,

Er

Er cynddeiriocced oedd ei amcan,
Fe orfu hongian arno ei hunan.

XIV.

Y drwg amcano un i arall,
Yn ddibwyll, a ddaw iddo'n ddiball;
A'r rhwyd yr ydoedd e'n fwriadu *Salm* ix. 15.
Ddala'r egwan, ddaw i'w faglu.

XV.

Pe iawn yſtyri dy freuolder,
A gwir gariad y Tad tyner,
Ti fyddit griſtion goſtyngedig,
Yn pwyſo ar ei nawdd yn unig.

XVI.

Ni all y byd i gyd dy gadw,
Rhag ſyrthio i bechod triſt a diſtryw,
Rho gan hynny'th holl ymddiried
Yn Nuw, ſy'n cadw'th gorph a'th enaid.

XVII.

Criſt ei hun ſy'n holl-alluog,
Yn abl porthi pob anghenog,
Fe ymgeledda'r weddw wirion, *Sal.* cxlvi. 9.
Y mae'r Ieſu'n dryſu'r trawſion.

XVIII.

Balchder bawlyd ſydd yn peri
I ddyn ddigio, rhwygo, a rhegu,
'Sgrechau ffyrnig, groch uffernol,
A'i tynn e'mlaen i'r tân trag'wyddol.

XIX.

I'r goſtyngedig iſel yſpryd,
Mae'r Duw byw yn addo bywyd;
Fe dry'r Ieſu i'r tân yſſol,
Y balch ei ffroen, i'w boen trag'wyddol.

CAN.

CAN. IV.

YN GOSOD ALLAN RINWEDDAU GOSTYNGEIDDRWYDD, ODDIWRTH BA UN Y CEIR GWELED YN EGLUR WRTHUNI BALCHDER.

I.

GOſtyngeiddrwydd yw'r cam cynta', *1 Pedr*
Sy'n arwain tu a'r nefoedd ucha'; iii. 4
A hunan-dŷb, 'rwyf fi'n ei dybied, *Diar.* xvi. 18.
Sydd yn arwain i gaethiwed.

II.

Goſtyngeiddrwydd a ddyrchefir, *Luc* xiv. 11.
A ymddyrchafo'i hun, goſtyngir; *Luc* xviii. 14.
Angylion gynt, am ymfalchio, *2 Pedr.* ii. 4.
Drwg eu damwain, Duw'n eu damnio.

III.

Goſtyngeiddrwydd tra rhyfeddol, *Gen.* iii. 15.
Oedd i'r Mab rhad, a'r Tad trag'wyddol,
Arfaethu iechydwriaeth i ni, *Phil.* ii. 6.
Trwy droi ei anrhydedd yn dlodi.

IV.

Goſtyngeiddrwydd mor anrhaethol, *Ioan* xiii. 5, 14
Wnaeth Duw i ddynion anhaeddianol,
Golchi traed yr apoſtolion,
Er dyſgu'r goſtyngedig griſtion.

V.

Y goſtyngeiddrwydd mwya' etto, *Ioan.* i. 14.
I Dduw wiſgo cnawd am dano,
I gael dioddef yn ei ddyndod, *Heb.* ix. 26.
Ac adgyfodi'n nerth ei Dduwdod. xxiv.

VI.

VI.

Goſtyngeiddrwydd y Tad tirion, *Rhuf.* v. 8.
Oedd rhoddi'r cyſan ar un cyſion,
I gael dioddef yn ein nattur,
Am bechodau pob pechadur.

VII.

Goſtyngeiddrwydd ddi-gyffelyb;
I Dduw oddi uchod dd'od i'n hachub,
Machnio a wnaeth, rhyddhau y rhei'ny, *Gal.*
A chroeſi'r dyled gadd ei dalu. v. 1.

VIII.

Goſtyngeiddrwydd mawr afrifed, 1 *Ioan* iv. 9.
I Dduw ddanfon Oen bendigaid
Yma, o'i fynwes, i'w ddifenwi, *Heb.* xii. 2.
A marw ar y pren i'n prynu.

IX.

Goſtyngeiddrwydd ddaeth o'r neſoedd,
Criſt a breſwyliodd ymhlith pobloedd,
Heb le i roddi ei ben i orphwys, *Mat.* viii. 20.
Ac ynte'n Frenin ym mharadwys.

X.

Goſtyngeiddrwydd oedd gweddio, *Luc* 23. 34.
A'mhwedd ar ei Dad ddad-ddigio,
A maddeu i'r llofruddion llidiog,
Oedd yn ei drin mor anrhugarog.

XI.

Pwy all ddirnad dan ei ddyrnau,
Faint oedd cyſtudd Criſt yn diodde'?
Fe rag-welodd, trwy fawr ofid, *Mat.* 20. 16.
Mai ychydig iawn a gedwid.

XII.

Goſtyngeiddrwydd oedd gweddio, *Luc* xxii. 44.
Nes chwyſu'r gwaed yn irad yno,

Yn yr ardd mewn ymdrech meddwl,
Ni chai ond cabl am y cwbl.

XIII.

Goſtyngeiddrwydd oedd gweddio, *Mat.* xxvi. 39.
Am i'r cwppan chwerw baſſio;
Nid fel y mae y cnawd yn dewis,
Parod yw f'yſpryd wneud d'ewyllys.

XIV.

Goſtyngeiddrwydd Duw oedd dyfod
At bechaduriaid, publicanod, a xi. 19.
Y gwaetha' o ddynion, a phutteiniaid,
Ergydiau'r union, gadw'r enaid. a ix. 13.

XV.

O, gan hynny, garedigion!
Dyſgwn oſtyngeiddrwydd ddigon,
Yn yſgol Criſt y rhaid ei dyſgu,
Duw-ddyn a ddenſyn ddoniau i ni. *Eph.* iv. 8.

CAN. V.

AR AIR Y GWIRIONEDD.

GWYN ei fyd y gwr a gym'ro *Sal.* xciv. 12
Gair gwirionedd i'w gyf'rwyddo,
Yn lle cyff'lybiaethau chwithig,
A dwndwr fudr, darfodedig.

II.

Aros yma i ymreſymmu,
Am dy ſynwyr pa'm y ſoni, 1 *Cor.* iii. 18, 19.
Pob dyn byw nid yw ond egwan,
A'r dall hwnnw'n twyllo'i hunan.

III.

Beth dâl medru, ddyn, ymddadlu!
Y mae'r calla yma'n colli;
Chwalu a chwilio tro dirgelion,
Mae'r agoſa' yn anghyſſon.

IV.

Ymro i ddibriſio'n bryſur yma,
Pob ffraethineb o'r fath yna;
Cais ag ewyllys goreu a gallu,
Gael Duw'n fore a'i glodfori.

V.

Pa faint gwell yw ambell fachgen
O'i ddyſgu'n uchel yn Rhydychen,
A'i goſti yno i roi cweſtiynau?
Drwg try maes, os gras fydd eiſiau.

VI.

Y gwir weddus air trag'wyddol,
Wrth ddyn all lafaru'n hollol,
Hwn o'i flaen a chwal yn oleu,
Y cam elo bob cymmylau.

VII.

Wrth y gair y ceir gwybodaeth,
Am wych dirion iechydwriaeth,
Heb yr hwn nid allwn farnu
Fel y dylem, ond y dyli.

VIII.

Y neb a garo'r gair yn gwbl,
O flaen a feddo, a'i holl feddwl,
'Nol iddo ddilyn hwn yn ddilys,
Gyd â'r Ieſu caiff e' orphwys.

IX.

Gwaith a llafur daeth a lludded,
Gelyn goleu'm calon gafed,

Doeth Dduw'n wrol, daw 'thyneru,
A'r Ieſu'n fodlon i'w ſefydlu.

X.

Nid hardd twrddan creaduriaid,
Ni wrandawai'r un ar aned,
Ond ar eiriau'r graſol Ieſu,
Rhai'n wy'n ddiſgwyl fy addyſgu.

XI.

O gwae finneu, am gyn'fino
A fi'm hunan yma heno,
Fel y delwy'n fwy nefolaidd,
A myfyr newydd am fy niwedd.

XII.

Trwy fyfyrio ar ei eiriau, *Salm* i. 2.
A'i naws puraidd, nos a boreu,
Awdwr bydoedd a rydd wybodaeth, *Jeſ.* i. 8
Fe all daro'r dealldwriaeth.

XIII.

Dyma berlau i feddwl purlan,
Difrycheulyd, daw'i fraich wiwlan,
I'w gofleidio; caiff ei flodau,
[Yn lle trafferthion] dyfu'n ffrwythau.

XIV.

Rhoi gogoniant a'i amcanion,
I Dduw'n benna' yw ddibenion,
Llwyr ymwrthod, yn lle 'mwerthu,
I'r ddraig anwar a'i ddrygioni.

XV.

Gwedi'r galon gael ymgeledd,
A'i thrwſio â chariad mewn gorfoledd,
Yn ddoeth hi ymguddia rhag y bradwr,
Nid â i'r ty'llwch gyd â'r twyllwr.

XVI.

XVI.

Pob gwr câll, o ddeall ddwfn,
Efe yn oeſtad ofyn gweſtiwn,
Eiſtedd gyd â'r goſtyngedig,
I fwrw'r drafferth rhag bod diffyg.

XVII.

Hyn ſy'n yſgafnhau ei feddyliau,
Trwſia i berwyl nos a boreu,
Wrth gyfraith rheſwm, caiff yr hwſman
Trefnu felly ddefnydd allan.

XVIII.

Un o'r campau mwya' i'm cwympas,
Y gwaith doethaf mewn cymdeithas,
Gortrechu 'n gynta' ein trachwantau,
Dilyn Ieſu am ei dlyſau.

XIX.

Dyn a ddylai fyth feiſtroli,
Gwŷn anweddaidd rhag cynhyddu,
Torri rhei'ny, troi at rinwedd,
Cei ddiddanwch yn ddiddiwedd.

XX.

P'le mae'r dynion goreu'u doniau,
A mab dedwydd, heb wendidau?
Er duwioled oedd hen Eli, 1 *Sam.* ii.
Hanes ddiffaith geir am Hoffni.

XXI.

Nid wy'n 'nabod neb mor odiaeth,
Er dyfned ydyw ei wybodaeth,
Heb fath heintiau o fethiantrwydd,
Yn ei lygru a'u halogrwydd.

XXII.

Llawer ſicrach fydd un ſiriol,
Fo'n dra gweddus, fyw'n ſynhwyrol,

Trwy gydnabod ei drueni,
Nâ'r balch yſgafn er ei ddyſgu.

XXIII.

Nid wy'n dibriſio dim o bryſur,
Na chamſynia ddyſg â ſynwyr,
Duw yw'r ffynnon ffeina'n ffrydio,
Gwybodaeth faith a ddaeth oddi wrtho.

XXIV.

Llawer gwell nâ'r holl 'ſgolheigdod,
Ydyw cadw lân gydwybod,
Ofni Duw, a pharchu dynion, 1 *Pedr* ii. 17.
Yw'r arch mwya' o'i orch'mynion.

XXV.

Mwya' ſon y ſydd yſywaeth,
Gan rai bydol gael gwybodaeth,
'Does dim tueddiad i ſancteiddrwydd,
I gyf'rwyddo'n fore'r anghyfarwydd.

XXVI.

Pe b'aem ni'n benna' yn ymboeni,
Ddiwreiddio'n gynnar wŷn drygioni,
Yn lle rhei'ny, plannu rhinwedd
Yn ofalus, cawn orfoledd.

XXVII.

P'le bynnag mae tafodau duon,
Yn chwedleua'm ymddadleuon,
Rheſtr rhwyſtrus ânt i ddiſtryw,
Dyna gyfran pawb o'r cyfryw.

XXVIII.

Tad trag'wyddol, Duw'r trugaredd,
Gwna fi i garu'r gair gwirionedd,
Fel y delwy'n un o'th deulu,
Yn oes oeſoedd, er mwyn Ieſu.

CAN.

CAN VI.

YN CYNNWYS DIYSTYRWCH AC ANWADALWCH, GWAGEDD A MWYNIANT PETHAU DAEAROL.

I.

Y Neb ſy'n 'nabod i o'i febyd,
Hwn dilyned f'ol, anwylyd, *Ioan* viii. 12,
'Rhyd ffordd gul i gael fy heddwch,
Mi tro 'ſe allan o dywyllwch.

II.

Dyma eiriau'n Harglwydd mawrglod,
Os mynni gadw lân gydwybod,
Dilyn fuchedd ddifrycheulyd,
Cei d'oleuo gan d'Anwylyd.

III.

Ni all y gelyn dwyllo'r galon,
Bid dy rodiad yn dra rhadlon,
A'th arferion i fyfyrio
Fuchedd Ieſu, ni chei'th ruſio.

IV.

Mae dyſgeidiaeth dy Ddyſgawdwr,
Goruwch areithiau y rhagrithiwr;
Y ſawl y ſydd â'i yſpryd ganddo,
Gwerthfawr fanna caiff a fynno.

V.

Y mae bagad, wy'n tebygu,
Yn gwrando'n ddifraw, nid o ddifri,
Heb fyfyrio ar ei eiriau,
Am fod yſpryd Ieſu 'n eiſiau.

VI.

Ond y neb a fynno ddyſgu
Ddeall geiriau'r graſol Ieſu,

Rhaid

Rhaid yw bod ewyllys hollol,
A byw'n ufudd fuchedd nefol.

VII.

Pa les it' yma ymreſymmu
Am ddoeth, am uchel achau'r Ieſu,
Os ydwyt fyth heb oſtyngeiddrwydd,
Ryngu, ergływ, bodd i'r Arglwydd.

VIII.

Nid geiriau uchel gwr a ddichon
Wneud e'n ſanctaidd ac yn gyfion;
Ond bucheddau pur, rhinweddol,—
Hoff gan Dduw y cyfryw bobl.

IX.

Gwell genny' glywed edifeirwch,
Yn gweithio droſto'i dduwiol driſtwch,
Nâ mod yn medru ei ddarlunio,
A ffraethineb i'm diffrwytho.

X.

Pe baet ti'n gwbod y 'ſgrythurau
Ar dy dafod, nid yw ddi-fai
Adrodd gwaith philoſophyddion;
Heb ras Duw, pa les i'r criſtion?

XI.

Gwagedd, gwagedd, meddai'r prophwyd,
Ydyw'r cwbl a glybuwyd, *Preg.i.2.*
Ond caru Duw â ſyw waſanaeth,
Fe ddyry'n dirion iechydwriaeth.

XII.

Dyma y ddoethineb benna',
Ymroi ddibriſio'n bryſur yma,
Y byd a'i wawd, y cnawd a'r cythraul,
Myn'd at deyrnas nef am afael.

XIII.

XIII.

Gwag ac yſgafn gwedi caſglu,
Ydyw golud gwael, ti gweli
Yn ehedeg gwedi'th hudo, *Diar.* xxiii. 5.
Mor ddifudd, a'i 'denydd dano.

XIV.

Wele agwedd gwael a gwegi
Yw'r fath ddygn gyſoethogi,
Ymddyrchafu am wych afael,
Gall e'th hudo, colli'th hoedl.

XV.

Gwagedd ydyw i ddyn anedwydd
Ddilyn lladrad ac anlladrwydd;
Cei'n ddiobaith byth dy boethi,
Yn nhân uffern, am ei hoffi.

XVI.

Gwag ddymuniad irad oeraidd,
I fyw'n hir ar dir anwiredd,
Heb ddim gofal am fyw'n gyfion,
Trwy ymdeithio gyd â'r doethion.

XVII.

Gwag arferion yw myſyrio
Ar fyd iſod, a f'ai'n paſſio, 1 *Ioan* ii. 15.
Heb ragweled yn y gwaelod,
Pethau difai byth i ddyfod.

XVIII.

Gwag yw'r tryſſor y'm ni'n drwſio,
Caru'i flodau, a'i gofleidio,
'Rhwn a ymedy mewn mynudyn,
Ffaelu cadw'r ffylach gwedi'n.

XIX.

Ymrown yn gyſſon yma i geiſio
Myn'd ar frys i'r ynys honno,

Lle caiff filoedd wir orfoledd,
A phethau i ddyfod, byth heb ddiwedd.

XX.

Na thro heibio ddiarhebion
Y 'ſgrythurau, (geiriau'r gwir-Iôn)
Ni all llygad oll wel'd digon,
Na'r cluſt ei lenwi â newyddion.

XXI.

Arfer di ddiwydrwydd eithaf,
Ddiddyfnu'r enaid, rhan anwylaf,
Rhag caru pethau gwael gweledig,
Sefydla'th ſerch ar Dduw yn unig.

XXII.

Yſtyriwn ninneu hyn yn hollol,
Wrth borthi gwyniau'r dyn naturiol,
Y collwn ni ein diniweidrwydd,
Heddwch a ffafr Criſt ein Harglwydd.

C A-N VII.

GWAEL GARDOD YSPRYDOL.

I.

POB cardottyn gendd o deutu,
Am ei luniaeth yma i'w lonni,
A phryd bynnag y derbynio,
Fe rydd fendith Duw am dano.

II.

Os bydd e'n gwrpys, ac yn garpiog,
Try o'r goreu at ral trugarog,

I gael

I gael ei wella a'i ddiwallu,
Yn awr mewn eiſiau, er mwyn Ieſu.

III.

Gwael yw gweled rhai dig'wilydd,
Yn ymboeni yma beunydd,
Porthi'r corph ſy'n gorſod llygru,
A'r enaid yna yn newynu.

IV.

Mae'n fwy buddiol i ni foddio
Y rhan anfarwol, a myfyrio
Ar y iechydwriaeth dirion,
Bwrcaſodd Ieſu i'w anwyl weiſion.

V.

Priſia'r nef 'nol pwys y nwyfau,
Rho'n rhagorach am y goreu,
Synna ſyrthio wrth dyrru ſothach,
Cwyd y manna, gad y mwnach.

VI.

Nid yw'r adar, gwir iawn ydy', *Luc* xii. 24.
'Mroi ym Mhrydain hau na medi,
Gwelwn Arglwydd y gogoniant,
I'r rhai mewn perthi'n rhoddi porthiant.

VII.

Fe wŷr rhai fod dau aderyn,
O dô marllyd, am un ffyrlin; *Mat.* x. 29, &c.
Mae Duw yn llonni rhai'n â lluniaeth,
Ar y glennydd, trwy ragluniaeth.

VIII.

Gwedi eu llonni, cwyn yn llawen
Pawb yn gyngan i ben cangen,
I glodfori'n fore ei fawredd,
Mewn cân hynod mwyn gynghanedd.

IX.

IX.

'Ry'ch chwi, rai goreu, yn rhagori
Llawer rhan uwchlaw y rhei'ny; *Mat.*x.31.
Mae Duw drosoch, chwi gewch dryssor
Gwell nâ 'sgubau, cell, na 'sgubor.

X.

Oni ddylai ddynion ddelwi,
Yma ym Mrydain, eisiau medru,
A'u genau a'u llef, iawn ganu'n llafar,
I'w Creawdwr gyd â'r adar?

XI.

Aros yma, wr rhesymmol, *Sal.*cii.18.
Gwrando'r 'stori'n fwy ystyriol;
Beth oedd diben Duw'n dy grëu, *Esa.*xliii.21.
Ond i'w ddilyn a'i addoli?

XII.

Pwy all 'chwanegu cusydd, cofiwch,
Trwy ofalu, neu ddyfalwch, *Luc*xii.25.
Neu lunio'n llyn y blewyn lleia'? *Mat.*v.26.
Yn ddiammeu nid neb yma.

XIII.

Taflwn olwg ar y lili, *Luc*xii.27.
B'le mae'r etifedd penna 'n tyfu?
A'i liw sel hyn mor wyn ei ynau,
Mewn brenhinllys, braint yn un-lle.

XIV.

Gwn na wisgwyd un dyn gwisgi
A dillad hoff, sel twff y lili;
Ni bu Solomon ddisgleirwych 27.
Erioed mor hardd a'i ardd yn edrych.

XV.

XV.

Os dillada Duw'r llyſieuyn
Sy'n y maeſydd heddyw'n laſwyn,
Ac y foru hwn a fwrir, *Luc* xii.28.
Gwedi ei luſgo i'r ffwrn, a loſgir.

XVI.

Deallwch etto, fe'ch dillatta,
Lawer hytrach pan ſo rheita,
O chwi o ychydig ffydd ddiffygiol,
Caiff ddynion ufudd ddoniau nefol. *Mat.*vii.11.

XVII.

Nac arferwch ragfyfyrio *Luc* xii.29.
Am fwyd a diod, doed a ddelo;
Fe gyflawna'r Ieſu'n eiſiau, 2*Cor.* ix.8.
Byth hyd farw â'r peth ſo oreu.

XVIII.

Pe baem ni yn ymboeni'n benna',
Am gael teyrnaſu'n y byd nefa', *Luc* xii.31.
Ni gaem bob peth angenrheidiol,
I'n diwallu'n hwn yn hollol.

XIX.

Na fydd heddyw'n rhy awyddus
Dros y foru; trwſia'n drefnus *Mat.*vi.34.
Dy fwrdd o hyd; y pryd preſennol
A ddigwyddo fwyd ſo gweddol.

XX.

Os derbyn gwr da hyn o gardod,
O law'r dyn gwaela', troed i'r gwaelod;
Cyn ei ddiyſtyru, yſtyried,
Os bydd e'n boddio'r Cymro, cym'red.

CAN. VIII.

AM Y DRINDOD, A CHNAWDOLIAETH CRIST.

I.

MAWR ddirgelwch ſy'n y Drindod,
Mae'r Tri hynny o'r un hanfod,
A'r un ſylwedd, ond gwahan ſwyddau, 1 *Ioan*
Un Duw ſydd, a Thri Pherſonau. v. 7.

II.

Myfi ni alla'i oſod allan,
Na dyn byw, ond Duw ei hunan,
Pa fodd mae un yn dri gwahanol,
A'r tri hyn yn un trag'wyddol.

III.

Pethau eglur roddwyd i ni,
Dyled pawb, a'u plant, eu dyſgu;
Nid gwaith y goſtyngedig griſtion
Yw chwalu a chwilio tro dirgelion.

IV.

Er nad alla'i ddeall f'Arglwydd,
Na'i chwilio allan i berffeithrwydd,
Mi wna fy ngoreu i gredu ar unwaith,
Gair Duw s'uwchlaw fy nealltwriaeth.

V.

Fe ddarfu'r Drindod fendigedig, *Gen.* i. 26.
Grëu dyn, nid un yn unig;
Fe wnaed ar lun y Tri Pherſonau,
Er nad oes ond un Duw'n ddiau. 1 *Cor.* viii. 4, &c

VI.

Fe ymddengys hyn yn eglur i ni,
Wrth y gyfraith a'r prophwydi, 1 *Cor.* viii. 4, &c.

Ni

Ni allwn wel'd yn yr eſengyl, 1 *Cor.* viii. 4, &c.
Enwau'r tri yn ddigon rhugl.

VII.

Y Tad ſydd Dduw, nid yw rhai'n ammau,
Y Mab ſydd Dduw i gadw 'neidiau, *Mar.* xii. 32
Yr Yſpryd Glân ſy' Dduw'n ſancteiddio, *Mat.*
A'h temlau ſydd ddideimlad hebddo. i. 21.

VIII. 1 *Cor.* i. 16. a vi. 19.

Gorch'mynodd Criſt i'r apoſtolion, *Mat.* xxviii
Fedyddio'n enw y Tri Pherſon, 19.
Yr uchel Dad, Mab rhad, a'r Yſpryd,
A'r tri hyn yn un Duw hyfryd.

IX.

'Roedd y Tri Pherſon yn cyttuno,
I greu dyn ardderchog yno, *Sal.* viii. 6.
Ar ddelw Duw, ond yw e'n odiaeth,
I fod yn ben i'r creadigaeth.

X.

Y mae'r dyn dan rwymau arbennig, *Deut.* vi. 13
I 'ddoli'r Drindod fendigedig,
Trwy ofn, cariad, ffydd, a gobaith, *Sal.* v. 11.
Trwy weddi brudd, o galon berffaith. a iv. 5.

XI.

Dirgelwch o ddirgelwch ydoedd,
I Dduw ddanfon Criſt o'r nefoedd
I gymmeryd atto ein nattur, *Phil.* ii. 7.
A throi'r Creawdwr yn greadur.

XII.

Mawr ddirgelwch digyffelyb!
Pwy dybiaſai bu'ſai boſſib'
Troi Duw'n ddyn, a dyn yn Dduw?
Dirgelwch o ddirgelwch yw.

XIII.

Y Tad yn Fab i forwyn farwol, *Luc* ii. 7.
Y ferch yn fam i'r Tad trag'wyddol,
Duw'n ddyn gwael i gael diodde', 1 *Ped.* 2. 21, &c
A'r dyn yn Dduw i gadw eneidiau.

XIV.

Uchel ydyw'r fath wybodaeth,
Ymhell uwchlaw ein dealltwriaeth,
Duw'n harweiniodd o dywyllwch, 2 *Cor.* iv. 6.
Fe ddug i'r goleu'r holl ddirgelwch.

XV.

Ffydd yn glau a geir trwy glywed, *Rhuf.* x. 17.
Clyw Fab Mair y gair bendigaid,
Yn dadguddio'r holl ddirgelwch,
I'n dwyn ni allan o dywyllwch.

XVI.

Fe amlygodd yn dra rhugl,
Heb ddim angof trwy'r efengyl,
Gofododd ddull y prynedigaeth,
O hyd cyrraedd i'n gwybodaeth.

XVII.

Fe ddanfonodd ei lân Yſpryd
I'n harwain ar hyd ffordd y bywyd, 2 *Cor.* iii. 6.
Y rhai ſydd etto ym meddiant ſatan, *Act.* xxvi.
Fe'u dwg yn gryno mewn i'w gorlan. 18.

XVIII.

Pob clod ſo i'r Drindod, Undod hyfryd,
Pob cariad ac ufudd-dod hefyd;
Pob anrhydedd a gogoniant,
I'r Tri a fytho fyth heb feddiant.

CAN. IX.

YN GOSOD ALLAN RWYMEDIGAETH EIN BEDYDD.

I.

GOrch'mynodd Duw i ni'n ddiogel,
Ymwadu â'r byd, y cnawd, a'r cyth-
A'u gwrthryfela'n benna' beunydd, [raul,
A bod i'r Ieſu'n weiſion ufudd.

II.

Ymrwymo a wnaethom trwy fechnïaſon,
I ymwrthod â'r tri gelyn creulon,
Fel na'n tywyſer gan y rhei'ny,
Rai tra annoeth i'r trueni.

III.

Caſewch holl weithredoedd diafol,
Coeg rodres, gwag orfoledd fydol,
Ynghyd â'i chwantau drwg cybyddus,
Ac anyſprydol gnawdol 'wyllys.

IV.

Ymarfogwn yn ddiogel,
Dan faner Criſt rhaid myn'd i ryfel,
Ymrown wrthſefyll ein gelynion,
Os gwnawn ni'n goreu, cawn y goron.

V.

Fe 'ddawodd Duw eich cynnorthwyo,
Rhoi' ras a'i Yſpryd i'ch cyf'rwyddo,
Cyflawnwch chwithau'ch addunedau,
Ni fydd 'mo ran yr Ieſu'n eiſiau.

VI.

Un peth ſydd yn angenrheidiol, *Luc x. 42.*
Gofalu am y rhan anfarwol,

A gadael i'r dywarchen freulyd,
Gwedi' gwyro, fyn'd i'w gweryd.

VII.

Rhowch eich ſerch ar bethau nefol; *Col.*iii.2.
Rhai hynny ſy'n parhau'n drag'wyddol,
Ymrowch yma i ymarweddu,
Wrth gyfreithiau'r graſol Ieſu.

VIII.

Fe ddatguddiodd ei ewyllys,
I'r Iuddewon trwy'i was Moſes;
Rhoed hi'n eglurach i griſt'nogion,
Trwy Ieſu Griſt a'i apoſtolion.

IX.

Fe roddwyd cyfraith i'r Iuddewon,
Ar lechau cerrig celyd ddigon;
Ond Yſpryd Duw a ddaeth i'r galon
I'w datguddio i'r criſt'nogion.

X.

Roedd rhaid cyflawni yr holl gyfraith,
Cyn gellyd cyrraedd iechydwriaeth,
Edifeirwch ddwys, a ffydd ddifuant,
O's ufuddhawn, ni gawn faddeuant.

XI.

Dyledwyr oeddem i'r cyfreithiau,
O fil miloedd o dalentau:
Fe'n rhyddhawyd oddiwrth y dyled,
Trwy aberthu'r Oen bendigaid.

XII.

Efe gyflawnodd yr holl gyfraith, *Mat.*v.17.
Fe dalodd ddyled pawb ar unwaith,
Fe fodlonodd ei Dad nefol,
Y mae'i drugaredd e'n drag'wyddol. *Sal.*c.5.

XIII.

XIII.

O molianwn ninnau'r Arglwydd,
Am ei anfeidrol garedigrwydd,
Yn diodde'r poen, a thalu'r dyled,
A'n rhyddhau ni o gaethiwed.

CAN. X.

YN ANNOG PECHADURIAID I FYNED AT DDUW AM FADDEUANT, AC IECHYDWRIAETH, TRWY GRIST.

I.

DE'wch at Dduw, can's dyma'r amſer,
Gweddiwch ar eich Tad mwyn tyner,
Am faddeu i chwi'ch anheilyngdod,
Er mwyn Criſt a gwaed y cymmod.

II.

Gwrandewch ei leferydd hyfryd,
Ganddo ef mae gair y bywyd; *Ioan* vi. 68.
Credwch chwi ei addewidion,
Ymrowch i gadw'i holl orch'mynion.

III.

Mae Duw'n galw pawb o'i bobl,
Attebwch i'r gwahoddiad nefol,
Rhag iddi fyn'd yn rhy ddiweddar,
A chwithau golli'i ras a'i ffafr.

IV.

Oni wrandewch ar lais yr Arglwydd,
Alaethus yw eich gwrthnyſſigrwydd,

Os

Os caledwch chwi'ch calonnau,
Fe ddichon Duw'ch caledu chwithau.

V.

Os gwrthodwch chwi ddychwelyd,
A throi at Dduw, yn hyn o ennyd,
Chwi gollwch ei gynnorthwyadau,
A'i lân Yſpryd i'ch eneidiau.

VI.

Oni fydd ich' wneuthur heddy'
Yr hyn mae Duw yn addo'ch nerthu,
A fydd i Dduw i wneuthur droſoch,
Yr hyn ni fynnech, gwnewch a fynnoch?

VII.

Yſtyriwch chwi, fy ngharedigion,
Y modd y darfu i Dduw ddanfon,
I'n gwaredu o gaethiwed,
Trwy aberthu'r Oen bendigaid.

VIII.

Os gorfu ar Fab Duw ddiodde',
A gwneuthur iawn am ein pechodau,
Ein dyled ni yw ei addoli,
Am iddo â'i werthfawr waed ein prynu.

IX.

Oni all gair Duw'ch trywanu,
A'ch deffroi oddiwrth eich ſyrthni,
Chwi ellwch fyned i dir angho',
A thân uffern, cyn eich deffro.

X.

Trowch at Griſt â thriſtwch calon,
Am ei ddigio â'ch dychymygion;
Ie, dewch ag yſpryd cyſtuddiedig,
Ni thyr y Ieſu'r gorſen yſſig.

XI.

Llîn yn mygu 'fe ni ddiffydd,
Ieſu a faddeu i'w weiſion ufudd;
Os bydd i'r galon dra llon ddryllio,
Er maint yw'r gwendid, cânt eu gwrando.

XII.

Edifeirwch at Dduw tirion,
Ffydd yng Nghriſt â'i addewidion,
Os gwellhawn ni ein bucheddau,
Rhydd iechydwriaeth i'n heneidiau.

XIII.

Fy enaid gwan rho gân i'r Drindod,
I Dduw am ddanfon—Criſt am ddyfod;
I'r Yſpryd ſanctaidd am dy nerthu:
Na flined f'enaid i'w foliannu.

XIV.

I Frenin ne', mae 'fe'n anfarwol,
I'r Un a Thri, ſydd fry'n drag'wyddol,
I'r unig Dduw, doeth, anweledig,
Poed pob anrhydedd yn garedig.

CAN XI.

CYFFES O DRUENI PECHADUR.

I.

MI ddangoſaf, Arglwydd, i ti,
Fy mhechodau a'm trueni;
Pan ddigwyddo croes neu aflwydd,
'Rwy'n digalonni obry'n ebrwydd.

II.

Amled ydyw fy mwriadau,
Da i ymdrechu â'm pechodau;
Profedigaeth fach fynycha',
(Duw edrycho) a'm gorthrecha.

III.

III.

Mae pechodau bychain, weithiau,
Yma'n magu amryw ddrygau;
Pa ddiogelaf fwyf, 'rwy'n coelio,
Dyna'r pryd 'rwy'n ſwrth yn ſyrthio.

IV.

Arglwydd, edrych di, gan hynny,
Ar fy ngwendid a'm trueni,
Er nad ydynt hwy'n guddiedig
Oddiwrth dy lygaid awr nac orig.

V.

Ieſu tirion, O toſturia,
Creawdwr, gwel greadur gwaela',
Yn flin o'th flaen, ac ofn ſoddi:
Tyn fi'n raddol o'm budreddi.

VI.

Ni fedra'i adrodd fy ynfydrwydd,
Heb gywilyddio, erglyw, Arglwydd,
Pan yſtyriwyf im' ddiſtrywio
Y moddion goreu i'm cyweirio.

VII.

Er nad wyf gaeth was i bechod,
Yma etto, heb ymddattod,
Etto mae'n triſtau fy yſpryd,
Trwy ei aml ruthrau chwithlyd.

VIII.

Yr wyf fi'n gwel'd fy nghyflwr aethus,
Etto fyth yn fwy truenus;
Bwriadau drwg, meddyliau duon,
Sy'n llettya o fewn fy nghalon.

IX.

O gadarn Iôr, a nawdd eneidiau!
Edrych ar fy ngofid inneu,

Llwydda f'amcan, llaeſa mlinder,
Rho nerth i mi o'r uchelder,

X.

Fel na chaffo'r cnawd na'r cythraul,
Na'r byd hefyd o'r ddwy afael;
Can's rhaid ymdrechu â'r rhai'n yn hwylus,
Tra byddwyf yn y byd truenus.

XI.

Truenus, meddaf, gan fod pob lle
Yn llawn gofid a blinderau,
Yn llawn o rwydau a gelynion,
Aflwydd dû ar ddâ a dynion.

XII.

Pwy, gan hynny, a ddichon hoffi
Bywyd chwerw a gofidi,
Gan ein bod ni yn helbulus,
N ymdroi yntho mor druenus?

XIII.

Neu, yn wir, pa fodd y gellir
Ei alw'n fywyd mewn un yſtyr,
Gan fod cymmaint o ddoluriau
Yn nythu yntho, a marwolaethau.

XIV.

Er maint yw'r blinder a'r trallodion
Sy' ar y ddae'r ar amryw ddynion,
Er hoffi a diſgwyl cael eſmwythdra,
Yn nyffryn gofid mae'r rhan fwya'.

XV.

Ni glyw'n ambell un yn d'wedyd,
Byd blin, brwnt, twyllodrus hefyd:
Ond er maint mae'n achwyn arno,
Ni fyn, er hynny, fyn'd o hono.

XVI.

XVI.

Er bod yr Yſpryd yn ei annog
I gaſau y byd digaſog,
Mae'r cnawd yn ei hudo i'w garu,
I ymdroi yno mewn trueni.

XVII.

Mae'r cnawd fynycha', hyn ſy'n ſicr,
Yn drech nâ'r Yſpryd, fel y gwelir;
Mae'r dyn hwnnw wedi amdwyo
Yr enaid a orchſygwyd ganddo.

XVIII.

Ni wna hwn ddim ond gwas'naethu
Y corph, a phorthi ei drachwant digri';
Ni phrofodd flas y bara nefol,
Mae Duw'n ei roddi'r enaid duwiol.

XIX.

Y ſawl ſy'n coſpi'r cnawd a'i wŷniau,
Yn caſau'r byd a'u holl deganau,
Rhei'ny a brawf pa fath feluſdra
Sy' o gadw cyfraith y Gorucha'.

XX.

Y mae'r eneidiau bendigedig
Yma yn gweled pa mor ddiddig
Y mae plant y byd yn gorwedd
Mewn trueni ac anwiredd.

CAN XII.

YN CRYBWYLL AMRYW RADAU, BUDDIOL I BOB CRISTION I'W DILYN.

I.

GWNEUD da am ddrwg ſydd nattur ddwyfol,
Gwneud da am dda wna ddyn rheſymol;

Gwneud

Gwneud drwg am ddrwg wna 'nifail ffyrnig,
Gwneud drwg am dda ſydd nattur ddieflig.

II.

Beth a dâl bwriadu beunydd,
Na newidia'i ddim o nghrefydd,
A byw yn ddiddim tros fy mywyd,
Oni bydd i'm crefydd fy nghyfnewid.

III.

Os byddi byw a marw hefyd,
Yn unig yn broffeſwr oerllyd,
Gwell fu'ſai it' fyw a marw'n ddiles,
Fel y Pagan,—heb un broffes.

IV.

Y mae dyledſwyddau crefydd,
Yn deillio o'u gwir egwyddor beunydd,
Nid dweud, ond rhodio gyd â'r Arglwydd,
Wna criſtion da, mewn goſtyngeiddrwydd.

V.

Fe all tywyllwch pan y mynno,
A goleu diſglair, gael ei wiſgo,
Yn gyſtal ag y gall drwg ddynion,
Gael eu galw yn griſt'nogion.

VI.

Yr unig beth ſydd angenrheidiol,
Yn y byd, yw byw'n grefyddol,
Er ſicrhau ar ol marwolaeth,
Ran yng Nghriſt, ſef iechydwriaeth.

VII.

Hiraeth am happuſrwydd cyffon,
Sy'n gyttun â nattur dynion;
Ond hiraeth am ſancteiddrwydd nefol,
Yn ddiau ſydd oruwch-naturiol.

VIII.

Os trefnodd Duw i ni ddaioni,
Attaliwyd rhag y byd o deutu,

Ni ddylem dalu'n teyrnged iddo,
Yn ddioed, er bod y byd yn peidio.

IX.

Os byddwch ewyllyſgar ddigon,
Fe gynnorthwya Dduw'r fath ddynion;
Os gwirioneddol yw'ch dychweliad,
Chwi gewch bardwn a derbyniad.

X.

Cofia am Dduw trwy wir bryſurdeb,
O wreiddiau'r galon, nid ar wyneb,
O'r ffynnon hon y tardda'n ddiau,
Gwir ufudd-dod i'w gyfreithiau.

XI.

Os anghofi Dduw'n dy ieuengctid,
A rhodio'n nwyfiant natur ynfyd,
Fe'th anghofia pan wyt egwan,
Yn ffaelu a rhodio gan hen oedran.

XII.

Y criſtion ſydd yn troi ei wyneb,
I wel'd hawddgarwch ffyrdd duwioldeb,
Sy'n rhyfeddu na b'ai'r holl-fyd
Yn rhodio ar hyd ei llwybrau hyfryd.

XIII.

Pan yſtyriwyf fi'r tywyllwch,
Gwyrni'r galon, a'i chaledwch;
Llygredd natur, cnawd, a'i wyniau,
Rhyfeddu 'rwy' pa fodd i ddechreu.

XIV.

Yſpryd Duw ſy'n ein cynhyrfu,
I droi yn raſol at yr Ieſu,
Fe ſydd yn rhoddi ffydd ddiffuant,
Fe brynodd bardwn a maddeuant.

XV.

Gwnewch eich galwedigaeth hyfryd
Yn ſier, trwy gynnorthwy'r Yſpryd,

Yna

Yna byddwch chwithau eilwaith
Yn ſicr o'ch etholedigaeth.

XVI.

Os rhodio a wnawn mewn ffordd anwaſtad,
Ac eſgeuluſo gweddi a gwiliad,
Fe fydd ein cyflwr ninnau'n ofnus,
A'r enaid gwan yn anghyſurus.

XVII.

Pedwar peth a ddylai criſtion
Ymwroli gael o'i galon,
Goſtyngeiddrwydd, diolchgarwch,
Gwiliadwriaeth, a thynerwch.

XVIII.

Os chwennychwn ni ymgadw
Rhag ſyrthio i bechod triſt a diſtryw,
Arferwn ympryd a gweddiau,
Er daroſtwng natur weithiau.

XIX.

Iechydwriaeth ſydd agoſaf,
Pan wnelo dyn hi'n orchwyl pennaf,
I ymgadw rhag gormodedd,
A llafurio am ras a rhinwedd.

XX.

Ordinhadau Duw yw'r moddion,
Er gweithio iechydwriaeth dirion;
Ond Duw'r ordinhadau eilwaith,
Yw unig awdwr iechydwriaeth.

XXI.

Gwna grefydd Criſt, fy anwyl griſtion,
Yn bennaf gorchwyl o'th orchwylion,
Hi ddyry i ti wir ddiddanwch,
Mae' ffyrdd hi gyd yn ffyrdd hyfrydwch.

XXII.

Mae'n rhaid ymboeni, byw'n grefyddol,
Llafurio am gael rhadau neſol;

Ond mwy o boen a ddaw o beidio,
A chwerwach loes yr oes a ddelo.

XXIII.

Nid yw oes y criſtion hwya'
Ond profiad byr o'i ddyfal bara,
Mewn gwir ufudd-dod i gyfreithiau
Yr Arglwydd Ieſu a'i wiw radau.

XXIV.

Tymmer araf a naturiol,
Sydd well nâ natur wyllt anianol,
Ond gwaetha' tymmer yn yr holl-fyd,
Yw bod yn glaiar yn yr Yſpryd.

CAN XIII.

YN GOSOD ALLAN Y GWAHANIAETH SYDD RHWNG BREINTIAU NEFOL A RHAI DAEAROL.

I.

ER bod bagad, 'wy'n debygu,
O ddeiliaid dan dywyſog Cymru,
Nid oes ond rhai'n cael gwel'd ei wyneb,
A byw yn ei breſennoldeb.

II.

Mae pawb o bobl Dduw, trwy'r holl-fyd,
Yn ei wyddfod e'n cael bywyd;
Mae ſe yn gofalu am danynt,
Ni newyna un o honynt.

III.

Er bod llawer iawn o werin,
O fôr i fôr, dan Sior ein brenin,
Nid oes nemawr iawn, er hynny,
O'r holl ardaloedd yn ei deulu.

IV.

IV.

Edrychwn ar yr holl ffyddloniaid,
Maent hwy'n deulu'r Duw bendigaid,
Rhai hynny ſydd yn ddinaſyddion,
Pob yr un, i Frenin Sion.

V.

Er bod yn nheulu Sior ein brenin,
Wyr ardderchog yn ei ddilyn,
Rhai o rhei'ny ſydd yn feibion,
A llai, f'allai, yn gyfeillion.

VI.

Nid oes un o deulu Duw
Heb ei fabwyſiadu, clyw;
Maent hwy'n feibion ac yn ferched,
A chyfeillion Iôn gogoned.

VII.

Er bod i Sior ein brenin enwog,
Feibion, merched, gwych ardderchog,
Gwedi byddo farw ei fawredd,
Un o'r twſ yw'r iawn etifedd.

VIII.

Nid felly'n ſiwr mae brenin Sion,
Mae pawb a feddo'n etifeddion,
Caiff pob gwr yno ei goroni,
Yn oes oeſoedd i deyrnaſu.

CAN. XIV.

GOLWG AR GRIST, YR HAWDDGARWCH MWYAF.

I.

BETH oedd yr olwg mwya' hawddgar,
A welodd dyn uwch dw'r a daear?
Gwel'd Mab Duw yn rhodio ar hyd-ddi,
Ddaeth mor garedig i'n gwaredu.

II.

Gwel'd y Bod mawr bendigedig,
Llywodraethwr doeth a diddig,
Creawdwr pob peth, yn ymddiddan
A'i greaduriaid yma'i hunan.

III.

Golwg fendigedig ydoedd,
Gweled Duw ymhlith ei bobloedd,
Ar eu llun, ac yn eu natur,
Y doeth Greawdwr yn greadur.

IV.

Fe ddarfu i Iefu Grift ymoftwng,
At greaduriaid llwyr anheilwng,
Mewn goftyngeiddrwydd; a'i fawrhydi
Ga'dd yn erchyll ei amharchu.

V.

Yr oedd yn eglur i bob criftion,
Wrth gywreinrwydd ei 'madroddion,
Faint ei nerth yn gwneuthur gwyrthiau,
Ei fod e'n Dduw a dyn yn ddiau.

VI.

Gwir yw, na chawfom ni'r happufrwydd,
A'n llygaid weled Crift ein Harglwydd;
Ond ein happufrwydd ni yw clywed
I Grift Iefu brynu'r enaid.

VII.

Mae'r hanefion am yr Iefu
Mor eglur trwy'r holl 'fgrythur i ni,
A phe buafem ni, â'n llygaid,
Liw dydd goleu, yn eu gweled.

VIII.

Mwy o glod fy' o fod heb weled,
Os rhown ynddo'n holl ymddiried;
Bendigedig, medd Crift Iefu,
Yw'r rhai ni welfant, ac fy'n credu.

CAN. XV.

ANNOGAETHAU I DDARLLAIN A GWEDDIO.

OS bydd gennyt oriau ſegur,
Na fydd lwfr, cymmer lyfr,
A myfyria am dy ddiwedd,
Gweddia'n daer am gael trugaredd,

II.

Pan yr elech i weddio,
Os wyt ti'n diſgwyl Duw dy wrando,
Cais, er mwyn dy anwyl Brynwr,
Faddeu'th bechod, wella'th gyflwr.

III.

Nid yw gweddi'n gynhwyſedig
Mewn geiriau ffraeth, na 'madrodd llithrig,
Ond yſpryd iſel, calon ddrylliog,
Trwy'r Mab rhad, at Dad trugarog.

IV.

Os bydd griddfanau yn ammherffaith,
O galon ddrylliog, llawn o hiraeth,
Am fwynhau yr Arglwydd Ieſu,
Bydd ſiwr y gwrendy Duw dy weddi.

V.

Ni all calon galed gyndyn,
Ddim gweddio ar Dduw, na'i 'mofyn;
Ond calon gâll all fyn'd yn ddrylliau,
A wneir i fynu o weddiau.

VI.

Fe ga' gweddiau'r ſeintiau hynod,
Ger bron gorſeddfaingc gras gyfarfod,
A'u perſonau a gyfarfyddant
Ger bron gorſeddfaingc y gogoniant.

VII.

Ffydd, a gweddi daer, trwy gariad,
A dry'r addewid yn wneuthuriad;
O ffydd fywiol plant goleuni,
Mae'r gweithredoedd goreu'n tarddu.

VIII.

Y mae'n Duw ni yn hollalluog,
Ymrown i'w geiſio e'n galonnog,
Mae e'n Dduw trugarog, tirion,
Chwi gewch, os ceiſiwch â'ch holl galon.

IX.

Y pryd mae Duw yn rhoi ei Yſpryd
I greadur egwan nychlyd,
Dyna'r pryd y bydd i'r criſtion
Dywallt o flaen Duw ei galon.

X.

Pwy bynnag ſydd yn byw'n ddiweddi,
Neu'n rhy farwaidd i'w harferu,
Ni allwn ddeall, mai rhyw ddichell,
Nid Yſpryd Duw, ſydd yn ei gymmell.

XI.

Ni chynhwyſir ein gweddiau
Mewn araith hir, a doethder geiriau;
Y ſerch, y meddwl, a'r ewyllys,
Mae Duw'n gyfri'n weddi hwylus.

XII.

Lle bo calon wir 'wyllyſgar,
Yn chwennych heddwch Duw a'i ffafr,
Fe fydd â'i lef tu a'r nef yn waſtad,
Yn 'mofyn help ei Griſt a'i gariad.

XIII.

A dreulio ei ddyddiau wrth weddio,
Trwy ffydd ddiffuant, heb ddiffygio,
Fe gaiff gyſſur a diddanwch,
Er mwyn Criſt, ymhen ei driſtwch.

XIV.

XIV.

Os diſgwyli wrth Dduw'n waſtad,
Fe leiha dy awch a'th gariad,
At ofalon mor afreidiol,
Dy ſerch a nawf at bethau nefol.

XV.

Lle mae Criſt, ein pen a'n prynwr,
Rho'r ſerchiadau ar Iachawdwr,
Y mae fe yn eiriol droſot,
Ni all e' dwyllo dim o honot.

XVI.

Rho'r anrhydedd i'r Tad nefol,
Gogoniant f'o i'w Fab trag'wyddol,
Pob parch i'r Yſpryd fyth a fytho,
O'r ddau, deallwn, mae e'n deillio.

CAN XVI.

CYNGOR I EGLWYSWR I FOD YN AMYNEDDGAR YN EI GYSTUDD.

I.

OS myn un dyn ddilyn Ieſu,
Yn ddianwadal rhaid ymwadu
A'i allu ei hunan heno'n hollol,
A chodi'r groes, greadur graſol.

II.

'Rwyf fi'n ofni, medd llaweroedd,
Mai caled ydyw'r fath ymadrodd;
Pwy a ddichon, yn ddi-ddychryn,
Ei wrando heb arſwydo'n ſydyn?

III.

Er hyn gwybydded pawb o'r cyfryw,
Diammeu wedi'n, trymaeh ydyw,
Y farn a rydd e'r dydd diweddaf,
" Ewch oddi wrthyf i'r tân eithaf." *Mat.* xxv. 41.

IV.

IV.

Gwyn eu byd ryw bryd i'r brodyr,
A ddilynant gyfraith gywir,
A rodd yr Ieſu i ni'n raſol,
Nid ant i'r ffwrnes dân uffernol.

V.

Pan ddel i'n harddel Brenin harddwych,
Ni fedra'i adrodd mor wych edrych,
Arwydd y groes, a rydd i'r graſol,
A fuant ufudd, fwyniant nefol.

VI.

Dyna'r dydd a rydd ddiddanwch,
Am ddilyn obry lwybrau heddwch,
Fe gaiff y cyfiawn ei wobrwyo,
Gan eu Brynwr, a'i bardyno.

VII.

Pa'm mor ſydyn yr arſwydi?
Oddiwrth y groes daw gras i'th nerthu,
I bara yn dy bererindod,
Trwy dy yrſa nes it' orfod?

VIII.

Trwy groes Criſt, a'i driſt farwolaeth,
Y daw gwych dirion iechydwriaeth,
Ni gawn ein gwala a diogelwch,
Ha wir frodyr, o hyfrydwch.

IX.

Oddiwrth y groes daw nerth i'r graſol,
I ddynion ufudd ddoniau nefol,
A chadernid y Glân Yſpryd,
Trwy gleiſiau Criſt y ceſaiſt ſywyd.

X.

Oddiwrth y groes pob gras ſy'n tarddu,
A phob rhan o rinwedd i ni;
Criſt ar y groes, trwy ing loes angeu,
Dwg y baich adwyth o bechodau.

XI.

XI.

Cais gan hynny gwnnu'n gynnar
Y groes bob dydd, a bydd ddioddefgar,
Dilyn y Brenin, anwyl Brynwr,
Fe wella'r briwiau oll, obrwywr.

XII.

Mae e' gwedi gadael i ti
Eſampl hynod, os dilyni,
Ei dwyn fe orfu, gyd â'r dyrfa,
Trwy gilgwthio, i Golgotha.

XIII.

Gwedi ei chario, cael ei gwrian,
Ei wanu a'i daflu gan rai aflan,
Nes i'r Ieſu 'mado â'r Yſpryd,
Fe orfu farw roi it' fywyd.

XIV.

Duw'n rhwydd, do'n rhodd, ddangoſodd i ti
Y ffordd i'w ddilyn a'i addoli,
Dos ar ei ol, rhagorol ydy',
Ei fuchedd lana' os canlyni.

XV.

Os byddi farw ar y ddaear,
Gyd â'r Arglwydd, Brenin hawddgar,
Di gei deyrnaſu yn oes oeſoedd,
Gyd ag eſo, yn y neſoedd.

XVI.

Ac os byddi di gyfrannog
O'i ddioddefiad, (curad cefnog)
Di gei, wr glân, gyd â'r Arglwydd,
Gwedi ei baſio, wir happuſrwydd.

XVII.

Gwybydd ditheu, gyd-ymdeithydd,
Mai trwy yſtod chwerw o gyſtudd,
Gorfydd myn'd, fy nghâr anwyla',
I gyd-deyrnaſu i'r byd neſa'.

XVIII.

XVIII.

Nid dim ond Duw a geidw d'enaid,
Trwy Faeddedigaeth Oen bendigaid;
Gwybydd ditheu, wrth ymdeithio,
Trwy ddiwygiad ei ddad-ddigio.

XIX.

Yn awr fe ddichon dyn heddychu
A Duw, cyn ei farw a'i gladdu,
Gwedi paſſio barn marwolaeth,
Ni ddichon gwalch heddychu eilchwaith.

XX.

Duw, rho ras i'th was yn waſtad,
Gyfrif ei ddyddiau, cyn ei ddwad
I orwedd yn ei wely priddlyd;
Mae'r calla'i ben yn colli'r bywyd.

CAN. XVII.

YN ERBYN DIAL, A CHYNNEN, A LLID, A DRWG-ABSEN.

I.

Y Dialwr gaiff ddialedd *Preg.* xxviii. 1.
Gan ei Dduw, gwn yn ei ddiwedd,
Ac fe geidw mewn cof gwedi'n,
Yr holl ddyli fu e'n ddilyn.

II.

Maddeu i'th gymmydog cyndyn,
Fu'n d'amdwyo wrth ddwyn dy dyddyn;
Yna pan weddiech ditheu, 2.
Cae faddeuant o'th bechodau.

III.

Dyn wrth ddyn a ddeil ddigofaint,
Ac a gais efe'r can cymmaint,

Gan

Gan ei Brynwr, awdwr odiaeth, *Preg.* xxviii. 3.
Wir-wych dirion iechydwriaeth.

IV.

Efe ni thrugarha un amſer,
Wrth ddyn yma o'r un dymer,
Ac a ymbil am drugaredd 4.
Dros ei bechod a'i anwiredd.

V.

Os efe ſydd lwch a lludw,
A ddeil ddig, a'i gilwg ſalw,
Pwy a ymbil am faddeuant, 5.
Dros ei bechod drwg a'i drachwant?

VI.

Cofia'r dydd y daw y diwedd,
Cyn dy daro, gad gyndaredd,
Ar 'gwrola daw marwolaeth, 6.
I'r lloerig digwydd llygredigaeth.

VII.

Rho barch manol i'r gorch'mynion,
Ymro ddad-ddigio a'th gym'dogion,
Cofia yma am gyfammod 7.
Y Goruchaf, gochel bechod.

VIII.

Ymgadw gwedi'n rhag cynhennu
Yn afreſymol, na arfer ſiommi,
A gynno gynnen, yn Gehena
Gyd â'r ddraig fawr bydd ei drigfa.

IX.

Gwr annuwiol, ceir e'n union
Yn trallodi ei gyfeillion,
Fe wna ymryſon, wr afraſol, 9.
Rhwng rhai iachus fo'n heddychol.

X.

Fel y byddo defnydd tanllwyth,
Felly llyſg y boeth-fflam adwyth, 10.

Ac fel y byddo cryſder gelyn,
Felly bydd ei ddig i'th erbyn.

XI.

Yn ol cyſoeth dyn y cyſyd
Ei lid ef; ymladd mae a'th ymlyd,
Po cryſa fo'r rhai ſy'n ymryſon,
Mwya' cynneu'r tân yn wreichion.

XII.

Nac ymddryſa trwy ymryſon, *Preg.* xxviii. 11.
Hawdd cynnu tân mewn hen dewynion,
Wrth ymladd pryſur, ſe dywelltir
Dy waed i'w golli gwedi cellweir.

XIII.

Os chwythwch chwi wreichionen fechan,
A'r genau'n fain, cynneua'n fuan;
Os poeri ar un ddiffaith, diffydd, 12.
Y ddau o'r genau, daw ar gynnydd.

XIV.

Melldigedig fo'r athrodwr,
Y ddau dafodiog yw'r gofidiwr,
Fe ga'dd llawer un heddychlon, 13.
Fradychu'n hollol â'i ddichellion.

XV.

Aelod aflan o dân dieflig,
Ydyw tafod dyn dau-ddyblyg,
Efe gynhyrfodd lawer cene'l 14.
I waith rhwyfus a gwrthryfel.

XVI.

Fe ddinyſtriodd anoneſtrwydd
Rai dinaſoedd a'u hatgaſrwydd,
A theiau pendefigion fagad 14.
A ddifethwyd mor ddiffeithed.

XVII.

Tafod dyn dau-ddyblyg aflan, *Preg.* xxviii. 15.
A fwriodd ſelly wragedd allan

O'u

Anadlodd ynddo enaid bywiol,
Oedd ar ei lun a'i ddelw nefol.

III.

Mor hynod ydoedd ei wybodaeth,
Deall eglur, ſynwyr perffaith,
Meddwl ſanctaidd yn cydſynio,
A rheſwm cryf oedd i'w gyf'rwyddo.

IV.

Dyma ddyn ar ddelw Duw,
Yr uwcha'i ben, a'r gwycha'n byw,
A phob peth dan ei lywodraeth, *Gen.* i. 26.
A'r byd i gyd yn ei arglwyddiaeth.

V.

Rhoed iddo allu, rhydd ewyllys,
I wrthod drwg a da, neu' dewis,
A byw yno mewn happuſrwydd
Paradwyſaidd, gyd â'r Arglwydd.

VI.

Er hyn yr oedd yn boſibl iddo,
Trwy anufudd-dod ſwrth i ſyrthio
I farwolaeth felldigedig,
A bwytta o ffrwyth y pren gwa'rddedig.

VII.

Pan welodd diafol eu happuſrwydd,
Fe genfigenodd obry'n ebrwydd,
Fe hudai Efa ſwytta'r afal,
A digio Duw i dynnu dial.

VIII.

Mor gynted ag y troſeddaſant,
O wydd Duw i ymguddio 'r aethant,
A hwythau'n noethion o gyfiawnder,
A lanwyd o euogrwydd 'ſgeler.

IX.

Pan gollodd Adda ei ddiniweidrwydd,
Fe ddarfu iddo ddigio'i Arglwydd,

Fe lygrwyd holl gynheddfau'i enaid,
F'aeth delw Duw i ddwylaw diawliaid.

X.

Pwy all ddehongli'r fath farwolaeth
A ddygodd Adda i'w hiliogaeth,
Fath gyfnewidiad yn y meddwl,
A'r holl ddyn mewn blin gythryfwl.

XI.

Dyma gyflwr tra echryflon,
Cael ein dihoeni gan elynion,
A'n harwain ganddynt wrth eu h'wllys,
Ymhob ffordd fydd bechadurus.

XII.

Dyma ddyn wedi ei ddirywio,
O'r cynheddfau gynt oedd ganddo,
A'r holl alluoedd gwedi llygru,
Yn dueddol i ddrygioni.

XIII.

Fe ddaeth tywyllwch i orchuddio
Y dealltwriaeth gynt oedd ganddo,
Waith gwyro'r meddwl a'r ewyllys,
Yr holl anwydau yn afreolus.

XIV.

Dyma gyfnewidiad creulon,
Waith fyrthio i bechod mor echryflon,
Dwyn marwolaeth tra echrydus,
Ar Adda a'i eppil llwyr anhappus.

XV.

Colli ei breſennoldeb hawddgar,
Colli heddwch Duw a'i ffafr,
Colli'r nef a phob happufrwydd,
Pan gollodd Adda ei ddiniweidrwydd.

XVI.

Ein hael Dad, o'i rad raflonrwydd,
Addawodd ddanfon Crift ein Harglwydd,

O'u rhan weddus tra rhinweddol,
Trwy gymmydog anghymmodol.

XVIII.

Mae'n d'andwyo os gwrandewi
Wr a chorn ſy'n arfer chwyrnu,
Ni chei orphwyſdra gan ddinyſtrydd, *Preg.*
Nac un lle i breſwylio'n llonydd. xxviii. 16.

XIX.

Dyrnod ffrewyll ſe all gleiſio,
Os daw dewryn i dy daro;
Nid ſel dyrnod tafod tra chwyrn 17.
Y dyn rhwyſgus tyrr yr eſgyrn.

XX.

Llawer ſydd mor ſwrth yn ſyrthio,
Wrth fin y cleddyf ſy'n eu clwyfo;
Mwy o gampwyr mawr a gwympodd, 18.
Rhai tafod-rydd a'u difrododd.

XXI.

Y gwr a gaffo ei amddiffyn,
Rhag eu gwyniau drwg a'u gwenwyn, 19.
Mae e'n ddedwydd yn ei ddyddiau,
'Ddiangc yma rhag eu rhwymau.

XXII.

Iau aneſmwyth yw i'r cadarn,
Iauau hwy ſydd iauau haiarn, 20.
Rhwymau pres rhônt rymau pryſur,
Cleiſiau anhardd ar eu harddwyr.

XXIII.

Marwolaeth ddrwg, mewn alaeth ddagrau,
Yw marwolaeth y fath lwythau,
Y mae'r beddau yn fwy buddiol, 21.
Nâ'r rhai 'ſtyfnig anyſtyriol.

XXIV.

Ni chaiff y fath offeryn diffaith,
Ar y duwiol fyth lywodraeth,

Ac ni loſg ei aelod wiſgi, *Preg.* xxviii. 22.
Yn eu tanllwyth newydd tanlli.

XXV.

Y rhai rhwyfus ſy' trwy ryfyg,
Yn gwrthod Duw, wrth fyw'n adwythig,
Dyna'r rhai yn ſwrth a ſyrthiodd 23.
I'r tân diffaith, nad yw'n diffodd.

XXVI.

Gwedi' lluſgo yno i'w lloſgi,
I'r llew i'w llarpio, pwy all helpu,
Rhag i'r llewpart oll eu difa, 25.
Rai cwynfanus, yn Gehenna?

XXVII.

Edrych di ar gau dy dyddyn, 26.
A drain a pholion, mangor gwddyn,
Rhwym i fynu yr hyn a feddych
O aur â'r allwedd oreu a ellych.

XVIII.

Pwyſa'th eiriau, clyw, mewn clorian,
Gwna i'th enau ddor i'th hunan 25.
A chlo; rhag fyrthio trwy dy ſerthedd,
O flaen cynllwynwr mewn digllonedd. 26.

CAN. XVIII.

YR AIL, AR Y CWYMP.

I.

Y Gair rhagorol o'r dechreuad, *Ioan* i. 1. 21
Oedd gyd â Duw, 'r hwn yw'n Uchel-
A Duw yw y gair trag'wyddol, [dad,
Fe wnaeth bob peth trwy arfaeth nefol. 1.

II.

Fe luniodd Adda o lwch y ddaear, *Gen.* ii. 7.
Fe wnaeth o'i yſtlys gymmwys gymmar, 21.

Anadlodd

IX.

Wrth roi'r Ieſu i farwolaeth,
Cadd y criſtion oruwchafiaeth,
O angeu! p'le mae'th golyn diffaith?
O fedd! p'le mae dy fuddugoliaeth?

X.

O uffern! p'le mae'th ddychryniadau?
O fyd! p'le mae dy falais ditheu?
O bechod! b'le mae'th nerth anſicr?
O f'enaid! b'le mae dy gyhyddwyr?

XI.

Yr anrhydedd mwya' i ni,
Yw bod yn berth'naſau i'r Ieſu,
A'r cyſoeth mwya' yn yr holl fyd,
Ydyw rhadau'r Ieſu hyfryd.

XII.

Y mae gwybodaeth o Griſt Ieſu,
Ar ddyſg oreu yn rhagori,
Fel y mae ei ufudd weiſion
Yn rhagori ar ddrwg ddynion.

XIII.

Cyflawnodd Criſt ei ſwydd fel prophwyd,
Yn effeithiol, pan y'n galwyd,
A'n cyfiawnhau yn ſwydd offeiriad,
A ſwydd brenhin ein ſancteiddiad.

XIV.

Bydded i ni bawb i wrando
Y Prophwyd mawr ddaeth i'n cyf'rwyddo,
Hyderwn ar ein 'Ffeiriad ffyddlon,
Ie, rhown ufudd-dod goreu i'w goron.

XV.

Na feddwl ronyn waeth am dano,
Er ei farw a'i groeſhoelio,
Fel 'raeth e'n ddyn i'r neſoedd uchod,
Yr oedd yn Dduw ymhlith babanod.

XVI.

XVI.

Ei eiriau, bywyd i'r byd ydoedd,
Gwyrthiau oedd ei holl weithredoedd,
Ei fywyd i ni oedd yn batrwn,
A'i farwolaeth drift yn offrwm.

XVII.

Fe adgyfododd ymhen tridiau,
Yn ogoneddus fe efgynai,
Mor orfoleddus aeth i'r nefoedd,
I eiriol dros y rhai a brynodd.

XVIII.

Ei ail ddyfodiad, fel y dywedant,
Fydd gyd â nerth a mawr ogoniant,
A'r holl angylion yn y nefoedd,
A'i hanrhydeddant e'n oes oefoedd.

XIX.

Fe fydd y diawlaid hwythau'n crynu,
Wrth ddwad ger ei fron i'w barnu,
A holl blant Adda byddant barod
Roi cyfrif o'u gweithredoedd priod.

XX.

Addef berfon Crift yn gyntaf,
Câr ei enw beunydd bennaf,
Derbyn ei athrawiaeth dirion,
Cwyn y groes, a chadw'i orch'mynion.

XXI.

O mor hawddgar yw ei berfon!
Mae'i enw'n felus gan grift'nogion,
Ei athrawiaeth fydd gonfforddus,
Ei arch a'i groes yn anrhydeddus.

XXII.

Mae'r archangylion yn gwas'naethu,
A'r llu nefolaidd yn ei foli;
O! na fydded i blant dynion,
Beidio uno ag angylion.

I 'ſigo pen y ſarph wenwynig,
Yr hon a roiſai'r ſawdl yſig.

XVII.

Pwy allaſai fyth ddychymmyg
Fath iechydwriaeth fendigedig,
I'n gwaredu o rwydau ſatan?
Nid dyn, nid dim ond Duw ei hunan.

XVIII.

Doeth yſtyriwn, yn ddifrifol,
Werthfawrogrwydd y rhodd nefol,
Ac ardderchogrwydd yr hwn addawyd
I ni, trwy enau Eſay'r prophwyd.

XIX.

Fe aned i ni'r Mab anwyla',
A Bachgen dewr, Cynghorwr penna';
Ar ei yſgwyddau mae'r llywodraeth,
Fe farna'r byd i gyd ar unwaith.

XX.

Gelwir ei enw ef, Rhyfeddol,
Y Duw cadarn, Tad trag'wyddol,
Pen Tywyſog yw a'n Llywydd,
Molwn ei enw yn dragywydd.

CAN. XIX.

YN CRYBWYLL AM YR IECHYDWRIAETH A DDYGODD CRIST I'R DYN COLLEDIG; GYD A RHAI ANNOGAETHAU I YMDDIRIED YN YR HYN A WNAETH AC A DDIODDEFODD EFE TROSOM NI AM GYFIAWNHAD.

I.

Y Fall a'm llygrodd trwy haerllugrwydd,
Greadur egwan, llawn euogrwydd,
Arferaf fi dy ordinhadau,
Caf nerth i ymdeithio oddi wrthyt tithau.

II.

II.

Gair Duw yw'r arf a darf y diafol,
Ffwrdd fe ffy i'w ffwrn uffernol,
Daroſtwng ef groch lef cybydd-dra,
Chwant y cnawd, y byd, a'r bola.

III.

Ymrown ymdrechu gael y trecha,
Ar y tri concwerwr yma,
Fe fydd i Awdwr iechydwriaeth,
Ein tra dyrchafu â goruchafiaeth.

IV.

Yſtad o brofiad yw hon yma,
Ofalus filwr, rhaid rhyfela
Yn erbyn y tri gelyn gwaedlyd,
Y byd a'i 'ſpri, y cnawd a'r yſpryd.

V.

Y neb a ddel â chalon ddrylliog,
Yn enw'r Mab, at Dad trugarog,
I gyfadde' ei holl bechodau,
Er mwyn y Mab fe gaiff eu maddeu.

VI.

Gan fod i ni'r fath addewid,
Gwedi ei roddi yng air y bywyd,
Pa ham yr oedwn yma i ymolch?
Awn trwy ffydd gan roddi diolch.

VII.

Pe bae'n pechodau ni mor amled
A rhif y gwlith, fyth mor ddiffeithed,
Yn goch fel ſcarlad, o'r lliw dyſna,
Gylch gwaed yr Oen mor wyn a'r eira.

VIII.

Mae eitha' rhinwedd yn hwn yma,
I olchi llygredd ein tad Adda,
Trwy'n ail eni ni o'r Yſpryd,
Er cyn-feiau, ni gawn fywyd.

XXIII.

Ni fyn dealltwriaeth dywyll
Addef fod creadur erchyll
Wedi dirywio o'i berffeithrwydd,
Nid oes ond Criſt yn llawn ſanctteiddrwydd.

XXIV.

Pe canfyddem ni'r gwahaniaeth,
Rhwng Criſt a'i greaduriaid diffaith,
Yr y'm ni'n dlawd, mae fe'n gyfoethog,
Nyni yn feirw, efe yn fywiog.

XXV.

Nyni yn bechod, e'n gyfiawnder,
Nyni'n euogrwydd, fe'n ras tyner,
Ni'n druenus, fe'n drugarog,
Ni'n blant i'r fall, fe'n hollalluog.

XXVI.

Nyni a gollwyd gynt yn Adda,
Efe'n gwaredodd o Gehenna,
Ni fy'n ei groeſhoelio eilwaith,
Efe ei hun yw'n iechydwriaeth.

XXVII.

O dewch at Griſt yn ewyllyſgar,
Gweddiwch am ei ras a'i ffafr,
Ac ymddiriedwch yn yr Arglwydd,
Mae' gariad e'n parhau'n dragywydd.

XXVIII.

Os 'dyw'th bechodau yn dy flino,
Dere'n edifeiriol atto,
Unig Oen Duw tynodd ymaith
Holl bechodau'r byd ar unwaith.

XXIX.

Os wyt yn teimlo ynot enaid,
Cadw rhag i'r llew ei 'ſglyfiaid,
Dos at Iachawdwr yr eneidiau,
Fe rodd ei werth, rhydd nerth i titheu.

XXX

XXX.

Os bywyd etto ar ol marwolaeth,
Gan bwy chwennychit ti ddyſgeidiaeth?
Dos at Griſt ſy' â geiriau'r bywyd,
Fe'th gyſfrwydda'r nefoedd hyfryd.

XXXI.

Os oes llid i ddyfod etto,
Pa lun y mae in' ddiangc rhagddo?
Awn at Griſt trwy ei gyfryngdod,
Fe'n gwared rhag y llid ſy' i ddyfod.

XXXII

Os bu iddo roi ei hun i fynydd,
I ddwylaw arteithwyr a'r dihenydd,
A ymguddia e' rhag y rhai a geiſiant
Ei drugaredd a maddeuant?

XXXIII.

Os boddlonodd ef i gymmeryd,
Trwy ddwylaw ei elynion gwaedlyd,
Mwy boddlonach fydd ef etto,
Trwy ddwylaw ffydd i'r neb a'i ceiſio.

XXXIV.

Yr hwn fu farw am dy bechod,
Os byddi gall, ni phall 'mo'i gymmod,
Ni'th fwrw allan am dy wendid,
O tyred, tyred, rhydd it' fywyd.

XXXV.

Mae ef yn addo it' orphwysfa,
Fe'th ddwg i annedd y Jehofa;
Cûr yn ddyfal, ar dy ddaulin,
Fe ddaw i agor y porth cyfyng.

XXXVI.

Edrych arno, fe a'th wared,
Rho di ynddo'th holl ymddiried;
Ni ddaeth un claf erioed at Ieſu,
Heb ei wella a'i ddiwallu.

XXXVII.

XXXVII.

Na hydera i'th nerth dy hunan,
Nid wyt ti ond creadur egwan;
Ac nid oes ynot ddim daioni,
On'd yw hynny'n gywilydd i ti?

XXXVIII.

Na ad ddim i hyn dy rwyſtro,
Annogaeth i ti ddyfod atto;
Tyred fel yr wyt ti 'n glwyfus,
Yn ddyn tlawd, ac yn anghenus.

XXXIX.

Dere'n noeth, ac yn newynog,
Dere'n gwrpus, dere'n garpiog;
Yn unig cred, mae' galon ynte'
Yn rhydd i'th roeſaw rhwng ei freichiau.

XL.

Hyn yw ei goron a'i lawenydd,
Sef cadw'r dyn o law'r dihenydd,
Os credwn ynddo â'r holl galon,
Fe geidw'r Iesu ei anwyl weiſion.

XLI.

Poed pob anrhydedd ac afudd-dod,
Yn cael ei dalu fyth i'r Drindod,
Am ein gwaredu o law'n caſeion,
A rhoi in' iechydwriaeth diriọn.

CAN. XX.

DIOLCHGARWCH Y BRENIN DAFYDD, AM EI WAREDU O DDWYLAW EI ELYNION, A'I GARIAD EF TU AG AT DDUW.

I.

DA gennyf wrando o'r Arglwydd arnaf,
Duw a glyw weddiau'r gwaelaf, *Sal.*cxvi.
Waith hynny, lleſaf arno'n ddiau, 1.
Am ras a nodded tros fy nyddiau. 2.

II.

Gofidion angeu a'm cylchynodd, *Salm.* cxvi. 3.
Ofn uffern ddû a'm daliodd,
Yna cefais ddirfawr flinder,
Llewygodd fy enaid, gan gyfyngder.

III.

Ymbiliais ar y Tad mwyn tirion,
Attolwg, gwared f'enaid gwirion, 4.
Er dy fod di'n Dduw'r cyfiawnder,
'Rwyt yn drugarog, fel y'th ofner. 5.

IV.

Yr Arglwydd fydd yn cadw'n ddurfin
Rhai annichellgar rhag y gelyn;
Tlodais ac ete'm hachubodd, 6.
Danfonodd i mi nawdd o'r nefoedd.

V.

Fy enaid, dychwel i'th orphwysfa,
Rho glod dyladwy i'r Gorucha', 7.
Am dy achub o law'r gelyn,
Rhag llew diffaith fe'th amddiffyn.

VI.

O herwydd it' waredu f'enaid,
Oddiwrth ddyrnod angeu diriaid,
A'm traed rhag llithro yn ei rwydau, 8.
Fy llygaid egwan fych eu dagrau.

VII.

Rhodiaf fi o flaen yr Arglwydd,
Yn nhir y byw, mewn goftyngeiddrwydd,
Cyftuddiwyd fi â dirfawr boenau, 9.
Lleferais, credais, Dduw, yn ddiau. 10.

VIII.

Mi ddywedais yn fy ffrwft, yfywaeth,
Pob dyn fydd gelwyddog diffaith, 11.
Beth a dalaf am y doniau 12.
A'rydd yr Arglwydd mwy i minnau?

Cym-

IX.

Cymmeraf phiol iechydwriaeth, *Salm.* cxvi. 13.
A galwaf ar ei enw odiaeth,
A thalaf fi fy addunedau, 14.
Yng ŵydd pawb, yn ei gynteddau.

X.

Gwerthfawr yw marwolaeth ſeintiau
Yng olwg Duw; ſe geidw eneidiau; 15.
Mab dy waſanaeth-wraig a gedwaiſt,
A'i rwymau rhy doſt a ddattodaiſt. 16.

XI.

Aberthaf i ti aberth moliant,
A'm genau canaf dy ogoniant, 17.
A galwaf ar dy enw ſanctaidd,
Dof ger dy fron â chalon bruddaidd.

XII.

Talaf fi fy addunedau,
I Dduw bob dydd, yng ŵydd ei ſeintiau, 18.
Mewn prydferthwch a ſancteiddrwydd,
Yng nghynteddoedd tŷ yr Arglwydd. 19.

CAN. XXI.

TRUENUS GYFLWR DYN WRTH NATUR.

I.

DUw'r Creawdwr, gwel greadur
Drwg ei 'nwydau; ni newidir
Croen, er whippio'r Ethiopiad,
Nac wrth olchi, frychni'r llewpard.

II.

Mewn anwiredd llawn y'm lluniwyd,
A baich o euogrwydd y beichiogwyd
Fy mam o'r cynta', megis cantoedd,
Ar was gerwin a eſgorodd.

III.

Gwedi hir gyn'fino, finnau,
I drigo yma ymhlith y dreigiau,
'Fe aeth y byd, y cnawd, a'r cythraul,
Tra fuo i'n ddiofal â'r ddwy afael.

IV.

Y diawl a dwyllodd Efa wammal,
Ac Adda'n ufudd, â'r un afal,
Collaſant ddelw eu Duw yn fuan,
A hwythau aeth yn noethion weithian.

V.

Y ſarph afraſol oedd gyfrwyſa,
I allu ag afal dwyllo Efa,
A'i hudo i ryfyg, hyn oedd ryfedd,
I'r ddau ddigwydd ddigio'i Fawredd.

VI.

Dyna'r pryd y daeth cydwybod,
I'w dwyſbigo yn doſt am bechod;
Hwythau'n noethion aeth i ymguddio,
Y gwael dduwiau, trwy g'wilyddio.

VII.

'Fe ga'dd y ddaear ei melldithio,
Ac Efa wedi'n ei phenydio,
Wrth hiliogi, waith 'i halogrwydd,
Yn llygru gwr glân gwaith yr Arglwydd.

VIII.

Drain a dryſni, dyna'r tryſor,
I ni a ddug y ddaear ddu-oer,
Wrth chwys ei dalcen cafodd Adda,
Hwyr a boreu, fwytta'i fara.

IX.

Cain oedd gyn-fab ein tad Adda,
Abel dirion oedd wiriona',
Llygredigaeth a wnaeth gynnwr',
Un yn farw, 'r llall yn fwrddwr.

'Roedd

X.

'Roedd Adda'n lân, o law ei Luniwr,
Gwaith pur, gyflym, perffaith gyflwr,
A'r byd yn eiddo iddo'n unig,
Na fwyttai o ffrwythau'r pren gwa'rddedig.

XI.

Odiaeth yno oedd ei ddoethineb,
Rho'i'n union enwau i bob rhyw wyneb,
Fe oedd oruchel oruchwiliwr,
Ar bob creadur, i'r Creawdwr.

XII.

Duw a alwai gwaith ei ddwylo,
At Adda ddwys, rho'i ddewis iddo;
Yn y cyfan ef ni's cafodd
Gymmares bur ar dir na dyfroedd.

XIII.

Gwnaeth Duw drym-gwſg ſyrthio ar Adda,
Fe dynnodd aſen o hono'n neſa',
I'w llunio'n fenyw loyw lanwedd,
Oedd gymmwys goflaid, ca'dd ymgeledd.

XIV.

Hon ſydd gnawd ac aſgwrn gwiſgi,
O'r eſgyrn yma dyſgwyd i mi,
Diau i Dduw gyſſylltu'r ddau-ddyn,
Y wraig i'r gwr, a'r gwr i'r wreigyn.

XV.

Am hynny gâd ei Dad a'i 'nillodd,
A'r un agwedd ei fam a'i magodd,
Fe lŷn fel craig wrth wraig ei ſynwes,
Nes gwahano angeu anghynnes.

XVI.

Nid angenrheidrwydd ſydd yn peri,
Fawr a bychain, bawb i bechu,
Ffrwyth melldigedig, llygredigaeth,
Sydd yn tarddu o'n naturiaeth.

XVII.

Pechod a ddwg allan bechod,
Nes cael iechyd oddi uchod,
I'w farwhau, glanhau ein hanian
A nerth hynod Duw ei hunan.

CAN. XXII.

RHAI HYFFORDDIADAU TU AG AT ATGYWEIRIO EIN NATUR LLYGREDIG, FEL Y CAFFOM BARDWN A MADDEUANT.

I.

YNeb addefo ei bechodau, *Diar.*
Ac a'u gadawo; hwn yn ddiau
A ga' faddeuant a thrugaredd, xxviii.
Am ei bechod a'i anwiredd. 13.

II.

Gadawed anwir ei feddyliau, *Eſay*
A'r gwr drygionus ei ffyrdd ynte', lv.
A dychweled at yr Arglwydd,
Mewn pryſſurdeb a ſancteiddrwydd. 7.

III.

'Fe fydd yn ſiwr o gael derbyniad,
Ac helaethrwydd, o gymmeriad;
Ein Duw ni ſy'n edifeiriol,
Yn paſſio heibio beiau ei bobl.

IV.

Can's daionus yw yr Arglwydd, *Ecſ.* xxxiv.
A hwyrfrydig ei lidiawgrwydd, 6.
Yn rhoddi mawrion drugareddau,
O! mor doſturiol yw'n Duw ninnau.

V.

Nid pob un ſy'n dywedyd, Arglwydd! *Mat.*
A ddaw i deyrnas nef yn ebrwydd; vii.
Ond yr hwn a wna ewyllys 21.
Ei Dad nefol yn ofalus.

O deuwch

VI.

O dewch i'r dyfroedd rai ſychedig, *Eſay* lv. 1.
Mae llaeth a gwin yn cael eu cynnyg,
Heb werth nac arian, ond ei geiſio,
Duw ſy'n eu rhoddi'n rhad i'w eiddo.

VII.

Pa ham y gweriwch arian fwya',
Am yr hyn nid ydyw fara?
A'ch llafur ni ddigona 'honoch, 2.
Er bwyta'n fynych faint a fynnoch.

VIII.

Pan fyddo Duw yn agos i ni
Y mae ceiſio'r Arglwydd Ieſu,
Dyna'r pryd mae galw arno, *Diar.* xviii. 13.
Am roddi'r Yſpryd i'n cyf'rwyddo.

IX.

Yn awr yw'r amſer cymmeradwy, *Eſay* lv. 7.
Dydd iechydwriaeth o bob dirwy',
Yng air Duw ni roddwyd i ni
Ddim addewid hyd y foru.

X.

Hon yw'r odfa, garedigion,
Dychwelwn gyd â'r mab afradlon,
Rhag iddi fyn'd yn rhy ddiweddar, *Mat.* xxiv. 6.
A ninnau golli' ras a'i ffafr.

XI.

Onid ydyw yn drueni,
I Dduw ddanfon Criſt i'n prynu,
A ninnau wrthod y bendithion
A brynodd Criſt â gwaed ei galon!

XII.

O! gan hynny, feini bywiol, *Mat.* vii. 21.
Adeiladaeth ein Tad nefol,
A'n genau canwn ei ogoniant,
Rhown iddo'n ddilys felus foliant.

CAN.

CAN. XXIII.

AR ANYSTYRIAETH POBL YNGHYLCH MODDION IECHYDWRIAETH.

I.

PE bae pawb o'r Cymru'n cym'ryd
Eu 'fforddi'n bur yn ffordd y bywyd,
Mewn yſgol rad, caent ddyſg i rodio,
A'u cof yn raddol i'w cyf'rwyddo.

II.

'Fe edwyn ych feddiannydd enwog,
A'r aſyn breſeb ei pherchennog,
Ond lle byddo Cymro angall,
Deddfau Duw nid yw'n eu deall.

III.

Mae'r creadur mud yn medru
Atteb diben Duw'n ei grëu,
A rhai rheſymol o'r oes yma,
Yn fwy anfuddiol, Duw ni foddia.

IV.

Mae rhai'n fyth yn anyſtyriol,
Mewn gwrthryfel, yng waith diafol,
Cyflwr oflyd, ceir hwy'n aflan,
Yn byw mewn pechod, fawr a bychan.

V.

Anyſtyriaeth a ddiſtrywiodd
Lawer dyn, a llwyr amdwyodd;
Gwrthod cynnyg gwerthfawr gyneu
Rhy ddiweddar, rhaid diodde'.

VI.

Pa ryw eſgus a rydd dynion
I'r Meddyg mwynaidd am y moddion
Allai wella, gyd ag 'wyllys,
Rai enbydaf, anwybodus?

VII.

Pa mwya' mae rhai yn gynghori,
Mawr a bychain mwy ſy'n pechu,
A pha amlaf fo'r bugeiliaid,
Mwy dig'wilydd gwela'i'r defaid.

VIII.

Beth a fydd y dydd y delo,
I'n bryn yn ſalw, Brenin Silo,
I ymddangos mewn gogoniant,
Ni wn i ga' ſe ffydd ddiffuant?

CAN XXIV.

CRIST YN CYSURO EI DDISGYBLION A GOBAITH TEYRNAS NEF, &c.

I.

NA thralloder eich calonnau, *Ioan* xiv. 1.
Chwi gredaſoch i Dduw'n ddiau,
Myfi fy hun yw gair y bywyd,
Credwch ynof finneu hefyd.

II.

Yn nhŷ fy Nhad y mae llaweroedd
O drigfannau yn y nefoedd,
Pe amgen, mi ddywed'ſwn i chwi, 2.
Y parotoiſwn etto letty.

III.

Ac os myfi a af i'w drefnu,
Mi a ddychwelaf i'ch cefnogi,
Fel lle'r wyf fi y byddwch chwithau, 3.
Yn cyfanneddu'r un anneddau.

IV.

Ac i ba le yr wyf fi'n myned,
Chwi oll a wyddoch hynny cyſtled,
A'r ffordd a wyddoch chwi o'r goreu, 4.
Yn ddi-ddychryn ymrowch ddechreu.

Dywedodd

V.

Dywedodd Tomas, Arglwydd, dywed,
Ni wyddom ni b'le'r wyt ti'n myned,
A pha fodd y gallwn wybod *Ioan* xiv. 5.
Y ffordd oreu i'th adnabod.

VI.

Yr Ieſu a ddywedodd, myfi'r un-wedd
Yw'r ffordd, a'r bywyd, a'r gwirionedd,
Ni ddaw neb at y Tad tirion, 6.
Ond trwof fi, a'm cynnorthwyon.

VII.

Ped adnabuaſech fi yn hollol,
Chwi adnabuaſech ſy Nhad nefol,
O hyn allan yr adwaenoch, 7.
Ef â'ch llygaid eich hun gwelſoch.

VIII.

A dywedodd Philip wrtho, Arglwydd,
Dangos i ni'r Tad yn ebrwydd,
Digon yw i ni gael gweled, 8.
A'r llygaid hyn, y Bod bendigaid.

IX.

Ieſu a ddywedodd wrtho ar ſyrder,
A ydwyf fi gyhyd o amſer
Gyd â chwi heb ſy adnabod? 9.
Mae hynny, Philip, yn rhyfeddod!

X.

Y neb a'm gwelodd i â'i lygaid,
Gwelodd hwn y Tad bendigaid,
A pha fodd yr wyt ti'n dywedyd, 9.
Dangos i ni y Tad hefyd?

XI.

Onid wyt ti'n credu etto,
Fy mod yn y Tad yn trigo,
A'r Tad tirion ynoſ finneu, 10.
A'n bod ni yn un Duw o'r dechreu?

XII.

XII.

Y geiriau a wyf yn eu llefaru,
Nid o honof fy hun 'rwy'n traethu,
Y Tad fy'n aros ynof finneu, *Ioan* xiv. 10.
Sy'n gwneuthur y gweithredoedd goreu.

XIII.

Myfi ſydd yn y Tad yn waſtad,
Ac ynof finneu mae' breſwyliad;
Credwch fi, gan hynny, bobloedd, 11.
Er mwyn tyſtiolaeth y gweithredoedd.

XIV.

Yn wir, yn wir, meddaf i chwithau,
Yr hwn ſy'n credu ynof finneu,
Y gweithredoedd wy'n eu gwneuthur, 12.
Ynte' hefyd a'u gwna'n bryſur.

XV.

A mwy na rhai'n a wna fe eilchwaith,
O blegid yr wyf yn myn'd ymaith
At fy Nhad ſydd yn y nefoedd, 13.
I eirioli dros fy mhobloedd.

XVI.

A pha beth bynnag a ofynoch,
Yn fy enw, a wnaf eroch,
Fel y caffo'r Tad ogonedd, 13.
Yn y Mab, a rhad anrhydedd.

XVII.

Os gofynwch ddim gan Dduw,
Yn fy enw, tra f'och byw,
Mi a'i gwnaf yn gyfan gwbl, 14.
Na ofyn ddim i maes o'm meddwl.

XVIII.

O cherwch fi o wreiddiau'r galon,
Ymrowch i gadw fy ngorch'mynion,
Ofni Duw ar air a gweithred, 15.
Dyna ei gyd yw eich holl ddyled.

XIX.

XIX.

Mi weddiaf ar Dduw'r deall,
Fe rydd i chwi Ddiddanydd arall,
Fel yr arhoſo yn drag'wyddol, *Ioan* xiv. 16.
Gyd â chwi y gwir grediniol.

XX.

Yſpryd y gwirionedd canlyn,
Yr hwn ni all y byd ei dderbyn,
Am nad yw e' yn ei weled, 17.
Na'i adnabod wrth ei weithred.

XXI.

Ond chwi, frodyr, a'i hadwaenoch,
O herwydd mae e'n aros ynoch,
Gyd â chwi y bydd ei drigfan, 17.
Ac ynoch bydd efe ymhob man.

XXII.

Ni's gadawaf chwi'n amddifaid, 18.
Mae gyd â chwi Ddiddanydd enaid,
O ! gan hynny, byddwch lawen,
Mi ddeuaf attoch chwi drachefn.

XXIII.

Dros ennyd bach, a'r byd ni'm gwel,
Ond chwi a'm gwelwch i'n ddigel,
Can's byw wyf fi, fy mhrodyr hyfryd, 19.
A byw fyddwch chwithau hefyd.

XXIV.

Y dydd hwnnw y gwybyddwch,
Fy mod i yn fy Nhad, diddanwch,
A chwithau ynof fi'n gobeithio, 20.
A minneu ynoch chwi'n preſwylio.

XXV.

Yr hwn ſydd a'm gorch'mynion ganddo,
Ac yn eu cadw, heb anghofio,
Efe yw'r hwn ſydd yn fy ngharu, 21.
Mae' weithredoedd yn tyſtiolaethu.

XXVI.

XXVI.

A'r hwn ſydd yn ſy ngharu'n bryſur,
Hwnnw, gan ſy Nhad, a gerir,
Minneu a'i caraf ef tra fyddo,
Ac a'm hegluraf ſy hun iddo.

XXVII.

Dywedodd Judas wrtho, Arglwydd,
Pa beth yw'r rhyfedd garedigrwydd, *Ioan* xiv.
I ti egluro dy hun i ni, 21.22.
Ac nid i'r byd, ſy'n cyd-ynfydu.

XXVIII.

Attebodd Criſt, a dywedodd wrtho,
Os câr neb fi, ſy ngair ſydd gantho, 23.
A'm Tad a'i câr, ni ddeuwn atto,
Ac a wnawn ein trigfa yno.

XXIX.

Yr hwn nid ydyw yn ſy ngharu,
Ni cheidw'm geiriau'n ei dryſordy;
Nid eiddof fi yw'r gair s'argyhoedd, 24.
Ond eiddo'r Tad, efe'm hanfonodd.

XXX.

Y pethau hyn a ddywedais wrthych,
A mi gyd â chwi'n dra mynych, 25.
'Fe ddenfyn Duw Ddiddanydd arall,
Yr Yſpryd Glân, i oleuo'ch deall. 26.

XXXI.

Y Tad a'i denfyn, yn ſy enw,
Fe ddyſg i chwi bob peth yn groyw,
Ac a ddwg ar gof, yn ddiau,
'R holl bethau a ddywedais i o'r dechrau.

XXXII.

'Rwy'n gadael i chwi ſy nhangnefedd,
Ac yn rhoddi'n rhad anrhydedd,
Nid fel mae'r byd, a'i ddrud ddannodiaeth,
'Rwy'n rhoddi i chwi iechydwriaeth. 27.

XXXIII.

Clywſoch fel y dywedais wrthych, *Ioan* xiv. 27.
Yr wyf yn myned lle 'rwy'n chwennych,
O ! gan hynny, byddwch lawen,
Mi a ddeuaf attoch chwi drachefn.

XXXIV.

O pe carech fi, anwylyd,
Chwi lawenhaech, am i mi ddywedyd,
'Rwy'n myned at y Tad i aros,
Can's mwy nâ fi yw'r Tad yn ddios.

XXXV.

Ac yr awr hon, byddwch barod,
Mi ddywedais i chwi cyn ei ddyfod,
Fel pan ddel y credoch chwithau,
Mai un Duw ſydd, a thri pherſonau.

XXXVI.

Nid ymddiddanaf nemmawr bellach,
Can's mae tywyſog y byd afiach
Yn dyfod attaf, ni chaiff weithian,
Ynof fi, na rhan na chyfran.

XXXVII.

Ond fel y gwypo'r byd ar unwaith,
Fy mod i'n caru'r Tad yn odiaeth,
Fel gorch'mynodd y Tad i mi,
Yr wyf finneu'n gwneuthur felly.

CAN. XXV.

YN GOSOD ALLAN YR ANHAWSDRA FYDD I HEN BECHADUR GWRTHNYSSIG, GWEDI CYNNEFINO A PHECHOD, DDYCHWELYD AT DDUW A DAIONI.

I.

A Newid yr Ethiopiad hagar
Ei groen ei hun ymhen un hawddgar?
Neu'r Llewpard ei frychni ynte',
A'r heli bechadur ei bechodau ?

II.

Peth anhawdd iawn yw newid natur
A drwg arferion hen bechadur,
Mae mor anhawſed denu'r glân-ddyn
I ymdrochi gyd â'r mochyn.

III.

Gwedi ymdrochi, Duw edrycho,
Os digwydd dryg-ddyn i ddiwygio,
Fel cî'n ymchwelyd at ei chwydſa,
A wna hen bechadur 'ſmala.

IV.

Y neb addola Dduw'n ei ieuengctid,
A rhodio o hyd 'rhyd llwybrau'r bywyd;
Nid ymedy gwedi hynny,
Fe ſydd ei grefydd gwedi greddfu.

V.

Duw, rho ras i'th was i ymgadw
Rhag ſyrthio i bechod triſt a diſtryw,
Fel gwedi 'rhodiwyf mewn anrhydedd,
Y caffwyf ffafr a thrugaredd.

CAN XXVI.

ANNOGAETHAU I EDIFARHAU.

I.

DEchreuad edifeirwch cefnog,
Yw daroſtyngiad, calon ddrylliog,
Mae'n diweddu yn dra hyfryd,
Gwedi adnewyddu'n bywyd.

II.

Er bod arnom eiſiau gallu,
Hwyr a bore i edifaru,
Nid oes, meddaf, eiſiau moddion,
A gallu i'w trin, ar unrhyw ddynion.

III.

Y neb ſy'n edifarhau am bechod,
A dront yn ol â duwiol ſyndod,
Rhag ſyrthio fyth i'r un fath feiau,
A damnio gwedi'n eu heneidiau.

IV.

Na foed fyth un fath ddifyrrwch,
Ein cadw'n ol rhag duwiol driſtwch,
Ac ympryd, galar, ac wylofain,
Rhwygwch eich calonnau'ch hunain.

V.

Er bod goſtyngedig gyffes
Yn dwyn cywilydd yn ſy mynwes,
Mae'n rhoi anrhydedd i Griſt Ieſu,
Fu farw ar y pren i'n prynu.

VI.

Nid yw'n rhy fore edifaru,
Ymrowch trwy ddychryn ddechreu heddy';
Ddoe ſe ddarfu'n ddiarwybod,
Y foru etto rhaid ymddattod.

VII.

Rhowch hyn at eich yſtyriaethau,
Ymbarotowch i fyn'd i'ch ſiwrnai;
Poed eich lampau gwedi trwſio,
A Duw'r nefoedd a'ch cyf'rwyddo.

CAN. XXV.

YR UN PETH ANGENRHEIDIOL.

I.

NI ddylai ddyn lafurio'n unig,
Am fwyd a diod darfodedig;
Llafuriwch am y bara bywiol,
A bery o hyd mewn byd trag'wyddol.

II.

II.

Bydd clod i filwr ſo'n ofalus,
Fel Mair, nid Martha, rhy drafferthus,
Un peth ſydd yn anghenrheidiol,
Gofalu am y rhan anfarwol.

III.

Gwerthfawr iawn yw pryniad enaid,
Pan orfu ar yr Oen bendigaid
Golli gwaed cyn gallu 'chadw,
A'i fwrddro'n doſt, i'w thynnu o ddiſtryw.

IV.

Os nad arbedodd Duw ei Anwylyd,
Ei droi o'i fawredd, rhoddi' fywyd
Yn aberth dros bechodau'r holl-fyd,
Pa wedd na chawn ni bob peth hyfryd?

V.

Pob clod, pob caraid, pob ufudd-dod,
Pob gwaſanaeth, a theilyngdod,
Pob anrhydedd, a gogoniant,
I Dduw a fyddo fyth heb fethiant.

CAN XXVIII.

HYFFORDDIADAU BUDDIOL I BAWB I'W DYSGU.

I.

GWrando eiriau Criſt, O Griſtion,
Maent hwy'n eiriau peraidd purion,
Meluſach ydynt nâ dyſgeidiaeth,
Neu lon'd y byd hwn o wybodaeth.

II.

Yſpryd pur, a gwir ddiddanwch,
A bywyd ydyw o hyfrydwch,
Y fath na ddichon dyn gyrhaeddyd,
Ond a ddelo o ddwylo'i 'Nwylyd.

III.

Ni chyfanedda mewn anneddau,
Ofer ddynion, heb fawr ddoniau,
Calon yſgafn rhy rodreſgar,
Heb fawr eſgus a bair yſgar.

IV.

Gwrando arnaf trwy lonyddwch,
Trwy addfwynder, a chareiddwch,
Trwy burdeb graſol, heb adgaſrwydd,
Cei Griſt yn rhwydd mewn goſtyngeiddrwydd.

V.

At y goſtyngedig griſtion,
Y daw Duw i dario'n dirion,
Fe genfydd walch fo'n falch ei feddwl,
Ei ffieiddio wna yn gyfan-gwbl.

VI.

Gan hynny, o ceiſi fyw yn gyſon,
Wrth reol yr efengyl dirion,
Tebyccach fydd i'th Dduw'th ddyrchafu,
O weini yn ſwrth, nag wrth feiſtroli.

VII.

Y neb a fynno fod yn flaena',
Bydded was i bawb pwy bynna';
A geiſio gantho, na wrth'nebed
Ddim, ond pechod, yn ei weithred.

VIII.

Y balch ei ffroen, a fo'n ymddiried
Yn ei olud, mor anwyled,
Mae Duw'n canfod hwn o hirbell,
Efe ni ddichon guddio'i ddichell.

IX.

Beth bynna' 'mafael dy law yntho,
Gwna'th holl egni tra f'ech wrtho,
Yr un wedd ag y diſgwyli
I'r rhei'ny etto wneuthur i ti.

CAN

CAN. XXIX.

CYNGOR I OCHELYD RHWYSTRAU.

I.

OD yw dy lygaid yn dy halogi,
I golli d'enaid, gwell ei dynnu,
Nâ myn'd â'r corph i uffern greulon,
Am ryw ronyn yma o rynion.

II.

Gwell i ti fyn'd yn un-llygeidiog,
I breſwylfa'r Hollalluog,
Nag â dau i dân trag'wyddol,
Trigfa dreigiau, ffwrn uffernol.

III.

Os dy law a ddaw i'th rwyſtro,
Rhag anurddo'r enaid, torr oddi yno,
A thafl oddi yma ymaith,
Am iddi hoffi gwaith mor ddiffaith.

IV.

Gwell i ti yn ddigellwair golli
Un o'th freichiau, a'th frawychu,
Ac na thafler dryg-ddyn diriaid,
I uffern gau-ddû, gorph ac enaid.

CAN. XXX.

DAMMEG Y GLWTH GOLUDOG, A LAZARUS Y CARDOTTYN.

I.

GWrandewch arna' i 'n dechreu mewn dychryn o draw, *Luc* xvi. 19.
Yn rhoi heno ryw hanes o Ddifes ddifraw,
A ymdeithiai'n ddanteithus, mor foethus ei fyd,
Nes gorfod ymadael a'u gadael hwy 'gyd.

II.

II.

Daeth atto gardottyn o'r tlotta' oedd i'w gael,
Fe roddwyd i orwedd, ei fylwedd oedd fal,
Wrth borth y goludog, rhy daeog, rhoed hwn,
Ni chas e'n lle ei fwccro ond ei luo gan gwn.

III.

Bu farw ryw fore, i'r frawdle fe aeth,
Lle agorodd ei lygaid, goludog oedd gaeth,
Yn uffern dân diffaith, anhywaeth yw'r nyth,
Dioddef raid iddo, i boeni yno byth. *Luc* xvi. 23.

IV.

Lazarus hynod a hunodd mewn hedd,
Rhoed ei gorph gwedi orphen i orphwys i'w
fedd,
A'i enaid anfarwol, mor freiniol a'i fry,
At Dad y ffyddloniaid yn goflaid wen gu.

V.

O Dophet, lle diffaith llu'r diffrwyth, fe drodd
Ei olwg, fe welai'r nef oleu'n rhyw fodd,
A Lazar o'i loefau a'i goefau'n ddigur,
Yn eithaf dedwyddwch, gwybyddwch y gwir.

VI.

Ar Abram oddi obry mor ebrwydd ei lef,
Erfyniad ddyn ynfyd oedd ddanfon o'r nef
Lazar fanct mwynlan am ddafn o ddw'r,
I'w laefu o'i loefau, y gwaeddai fel gwr.

VII.

Ha fab! ebe Abram, wr dinam ond yw,
Gwir i ti'n dy fywyd gael gwynfyd gan Dduw,
A Lazar ei adfyd, ca'dd newid ei nyth,
Fe'n ddiau ddiddenir, ti boenir dros byth.

VIII.

Ni all yr ellyllon, rhy greulon eu grân,
Ro'i cennad it' gwnnu, na'th dynnu o'r tân,

Na'i

Na'r ſeintiau ſydd yma ddim d'od yna mwy,
Fe ddarfu cyſeillach byth bellach â hwy.

IX.

O danſon e'n gennad, wr difrad, i dŷ
Fy nhad, rhag eu dyſod i'r 'ſtad yr wyf fi,
A'm brodyr dibryder, rhybyddier mewn pryd,
Fel y gallo'n ddigellwair eu gwella hwy gyd.

X.

Mae Moſes o'r maeſydd i'r trefydd yn troi,
Ei Dduw barodd iddo rybuddio pob rhai,
Trwy ddatgan ei 'wyllys a'i allu 'r holl fyd,
A'u dwyn o fro aflan i Gaanan eu gyd.

XI.

Nag ê, pe dychwelai drychiolaeth i'w plith,
Hwy'n fore edifarent, arſwydent dros fyth,
Rhag eu taflu i'r boeth-fan anniddan ei nad,
I gyd yno i gadwyni i'w dihoeni o dy nhad.

XII.

Yna, ebe Abram, os rhaid eu deffroi,
Gwrandawent ar y dynion ordeiniwyd i'w troi,
Rhai'n oni wrandawant, ni chredant ychwaith,
Er danſon o'r dyſn-fedd yn niwedd y daith.

CAN XXXI.

RHYBUDD I'R CYMRY, O ACHOS BOD AMRYW FARNEDIGAETHAU YN CAEL EU BYGWTH, MEGIS HEINTIAU AR ANIFEILIAID BYW.

I.

O Frodyr! trwy Frydain afradus,
Gwae'n bod mor enbydus yn byw,
Dan feichiau nid bychain o bechod,
Heb neb yn adnabod eu Duw,

Dig-

Dig'wilydd fe gwelir o'r gwaela',
I'r bonedd ſydd benna'n y byd,
Ynfydrwydd na fedra'i ei adrodd,
Ar gyfeiliorn a'u gyrrodd hwy i gyd.

II.

Holl Gymry gwell cym'ryd mwy gofal,
Mae'r diafol mor ddyfal o hyd,
A'n gwyniau ni'n hunain ein hudo,
Ymroddwn eu gadael i gyd,
Mae barnedigaethau yn ein bygwth,
Daeth heintiau diſymmwth i'r byd,
Ymgrymmwn ger bron y Goruchaf,
Efe all ein gwella mewn pryd.

III.

Addefwn yn ufudd mewn ofn,
Heb gelu'n y galon un bai,
Da fwrw ar wir edifaru,
O'r ddwyfron yn ddifri bob rhai,
Dilynwch rialwych reolau,
Mae goleu efangylaidd i'w gael,
A chymmorth iachuſol wych Ieſu,
I'r rhei'ny ſy'n credu'n ddiffael.

IV.

Cymmerwch iau Ieſu, ſydd eſmwyth,
Da ydyw a diadwyth i ddyn, *Mat.* xi. 29, 30.
Ei faich ef i'r gwiſgi ſydd yſgafn,
Os byddant hwy boddlon i'w drin,
O cul ydyw'r ffordd tu a'r bywyd,
A chyfyng yw'r porth i'r diras, vii. 13, 14.
Ond gwerthfawr yw gwybod oddi wrthi,
Yr Ieſu fe'n tywys ni maes.

V.

'Nol i chwi ail ddychlyn eich llwybrau,
Ewch adre' cyn troi yn eich ol,

Cym-

Cymmerwch ich' olew i'ch lleſtri,
Rhag caffael eich cyfri'n rhai ffol, *Mat.*xxv.
Yr hwn a barha hyd y diwedd, 3,4, &c.
A'n rhwydd i anrhydedd pur-lân,
Ond cethin fydd gwel'd y gwrth'nyſig,
A 'ſtofi rhai 'ſtyfnig i'r tân.

VI.

O tyred ar hyd ffordd y bywyd,
Anela' anwylyd yw'r nod,
Gwna d'orchwyl i gyrchu hyd atto,
Bydd i ti'n ddiammeu gael clod;
Er maint y maent yma'n ymgynnull,
Nid pawb, ond un, ennill o'i boen,
A rhei'ny rai heini, wyr hynod,
Oreuglod aroglant yr Oen.

VII.

Rhagluniaeth diweniaeth Duw union,
Oedd peri'r Oen purion mewn pryd,
Ei uno a'i eni o ddyn anad,
A diodde' 'nol dyfod i'r byd,
Ar groes y ca's angeu echryſlon,
Erchyll oedd archollion Mab Duw,
Bu ddifrad, ei fwriad oedd farw,
O credwn, i'n cadw ni'n fyw.

VIII.

Chwerw fryd arw fradwrus
Iuddewon, oedd ddewis yn rhydd *Mat.*xxvii.
Barabbas, eu pwrpas oedd peri 21,23,&c.
I Pilat roi i boeni'r Oen prudd;
'Roent hwy yn goganu'r gogoned,
Da ei nawdd, a diniwaid Duw nef,
Ei werthu a'i wrthod ddiwetha',
Diau ei ddifetha oedd eu llef.

IX.

Mewn pryder, rai prydiau, ymprydiwn,
Fe gyſt i ni ymoſtwng bob rhai,
Cwympwn yn glau ar ein gliniau,
Gan ufudd gyſadde' pob bai,
Ceiſiwch wych Ieſu iachuſol,
Ran weddus rinweddol o'i waed,
Er i ni dros ddyddiau droſeddu,
Fe ddychyn heddychu ni â'i Dad.

X.

Mae dyled mor deilwng i'w dalu,
O'r dwylo ar deulu'r holl fyd,
O'r galon, o'r ewyllys, a'r gallu,
Rhoi cyfrif i'r Cywir ei gyd,
Rhoi'r yſpryd mewn pryd i law'r Prynwr,
Eiriolwr, Dadleuwr, a'r Tad,
Yn rhwydd fe'n rhyddha o gaethiwed,
Fe dalodd y dyled â'i waed.

XI.

A'm genau mi ganaf ogoniant,
Yn felus rhoſ foliant i'r Tad,
I'r Ieſu a'r Yſpryd trag'wyddol,
Un Duw ddaeth i'n dethol ni'n rhad;
Cydſyniwch a ſeiniwch Hoſanna,
Wir hyf i'r Jehoſa o hyd,
Ei foli a'i 'ddoli ef ddylid,
Yn ddiwyd hyd ddiwedd y byd.

CAN XXXII.

ANNOGAETHAU I FYNED RHAGOM YN OFALUS YN FFORDD IECHYDWRIAETH.

I.

GWeithiwch allan, tra f'och yn gallu,
Eich iechydwriaeth odiaeth ydy',

Fod

od y Brenin i ni'n Brynwr, *Phil.*ii.12.
'r gwir Oen ydyw ein Gwaredwr.

II.

rwy ofn a dychryn y mae dechreu,
chof addas i gyfadde'
y fai, ag yſpryd cyſtuddiedig,
i friwa'r Ieſu'r gorſen yſſig.

III.

rwy ffydd ddiball mae cael y goron,
'r mwyniant ſydd ym mynydd Sion,
ydſeinio â'r ſeintiau yn y neſoedd,
oſanna i'r Ieſu yn oes oeſoedd.

IV.

i bychan ydyw gan bechadur,
ael Iachawdwr trwy wych Awdur?
waed Duw Iôn a geidw ei enaid,
l na's caffo'r llew ei 'ſglyfiaid.

V.

ro'r fall allan, a'r holl allu,
ro'n ol i'th wegil dwyll a gwegi,
ro'r hen ddyn o'i dyddyn diddig,
'r newydd delia ddydd Nadolig.

VI.

haid bwrw'r hen ddyn o'r goreſgyn,
chael dyn newydd da i'th dyddyn,
i chydſydda yn y galon,
unwaith, ddau fath o yſbrydion.

VII.

wedi cael dy adnewyddu,
'r dyn newydd gyfaneddu,
haid i ti gadw'r hen o hono,
hag dychwelyd i'th anurddo;

VIII.

iddo gym'ryd gwaeth cwmpeini,
wedi ei yſgubo, ei drwſio, a'i drefnu,

Yna digwydd dy ddiweddiad,
Lawer gwaeth nâ'th hen ddechreuad.

IX.

Yſpryd Duw yw'r unig geidwad,
Cais ei gyrchu fyth i'th warchad,
Ni chlwyfa'r fall a'i holl biccellau,
Mae' law e'n nadel lladd eneidiau.

X.

Blwyddyn ddoniol, bloeddiwn, ddynion,
A ddelo i ni o ddwylo union,
A'r pur galonnau yw'r per galennig
Ar ddydd enwaediad Duw'n enwedig.

XI.

Ar gyfenw, er cof hynod,
Yr amſer yma, cawſom ammod,
O iechydwriaeth! gwych mor dirion,
Yw'r gras a g'niger i griſt'nogion.

XII.

Ymreſymma, ddyn rheſymol,
Nad oes o ddynion un haeddianol
O'r rhagorfreintiau gan ei frynti,
Na dawn iddo, ond Duw'n ei haeddu.

XIII.

Duw yw'r Brenin, Duw yw'r Prynwr,
Mab Duw ydyw'n gwych Iachawdwr,
Rhydd ras a'i Yſpryd i'th gyf'rwyddo,
Yn ddiwyd i ti ddyfod atto.

XIV.

Dere'n yſtig, trwy ymoſtwng,
Adde'r dyled nad wyt deilwng
I gael o'r braſa', ond cwyn y briwſion,
O dan ei fwrdd, ſe gwrdd â'r galon.

XV.

Y neb a gaffo ganddo gyffwrdd,
Mae Duw'n dodi'n heb ddim dadwrdd,

i rad yn hawdd, a'i nawdd o'r nefoedd,
Mewn modd rhyfedd ynddo'n rhyw-fodd.

XVI.

endigedig yn dragywydd,
erthyn mawr-glod byth i'n Harglwydd,
O'i rad ras a rodd yn rafol
n' waredigaeth gadwedigol.

BRITISH
14 JY 93
MUSEUM

Y

DANGOSEG.

Can.		Tu Dal.
I.	Ar Gwymp Adda - - -	1
II.	Ar Gwymp yr Angylion - - -	7
III.	Am Falchder - - - - -	9
IV.	Yn gosod allan Rinweddau Gos-tyngeiddrwydd, &c. - - -	12
V.	Ar Air y Gwirionedd - - - -	14
VI.	Yn cynnwys Diystyrwch ac Anwadalwch, &c. Pethau daearol -	19
VII.	Gwael Gardod ysprydol - - -	22
VIII.	Am y Drindod a Chnawdoliaeth Crist - - - - - - - -	26
IX.	Yn gosod allan Rwymedigaeth ein Bedydd - - - - - - -	29

X. Yn

CAN. — TU DAL.

X. Yn annog Pechaduriaid i fyned at Dduw, &c. - - - - - - 31

XI. Cyffes o Drueni Pechadur - - 33

XII. Yn crybwyll amryw Radau, buddiol i bob Criſtion i'w dilyn - - 36

XIII. Yn goſod allan y Gwahaniaeth ſydd rhwng Breintiau nefol a rhai daearol - - - - - - - 40

XIV. Golwg ar Grift yr Hawddgarwch mwyaf - - - - - - 41

XV. Annogaethau i ddarllain a gweddio 43

XVI. Cyngor i Eglwyſwr i fod yn amyneddgar yn ei Gyſtudd - - 45

XVII. Yn erbyn Dial, a Chynnen, a a Llid, a Drwg-abſen - - - 48

XVIII. Yr ail, ar y Cwymp - - 52

XIX. Yn crybwyll am yr Iechydwriaeth a ddygodd CRIST i'r Dyn colledig, &c. - - - - - - 55

XX. Diolchgarwch y Brenin Dafydd, &c. - - - - - - 61

XXI. Tru-

Can.		Tu Dal.
XXI.	Truenus Gyfiwr Dyn wrth Nattur - - - - - - - -	63
XXII.	Rhai Hyfforddiadau tu ag atgyweirio ein Nattur llygredig, &c.	66
XXIII.	Ar Anyfiyriaeth Pobl ynghylch Moddion Iechydwriaeth - -	68
XXIV.	Crist yn cyfuro ei Ddifgyblion â Gobaith Teyrnas Nef, &c. -	69
XXV.	Yn gofod allan yr Anhawfdra fydd i hen Bechadur ddychwelyd at Dduw, &c. - - - - - -	74
XXVI.	Annogaethau i edifarhau - -	75
XXVII.	Yr un Peth angenrheidiol -	76
XXVIII.	Hyfforddiadau buddiol i bawb i'w dyfgu - - - - -	77
XXIX.	Cyngor i ochelyd Rhwyftrau	79
XXX.	Dammeg y Glwth goludog, a Lazarus y Cardottyn - - -	79
XXXI.	Rhybudd i'r Cymru, &c. -	81
XXXII.	Annogaethau i fyned rhagom yn ofalus yn Ffordd Iechydwriaeth	84

DIWEDD.

BRITISH
14 JY 93
MUSEUM